




Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr

Cynllun Rheoli 2017



Landscapes
for life
.org.uk



RHAGAIR

Mae Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AoHNE) yn rhai o dirweddau harddaf Prydain. Mae preswylwyr ac ymwelwyr yn dwlu arnynt fel ei gilydd ac maent yn galluogi miliynau o bobl o bob cefndir i ddeall a chysylltu â byd natur.

Mae bellach yn 60 mlynedd ers i benrhyn Gŵyr ddod yn AoHNE gyntaf yn y DU ac rwyf wrth fy modd gweld bod y cynllun rheoli hwn yn dangos sut bydd Partneriaeth yr AOHNE'n parhau i ddiogelu'r dirwedd unigryw hon er gwaethaf yr heriau sylweddol sydd o'n blaenau. Gyda hinsawdd newidiol, galw cynyddol gan boblogaeth sy'n tyfu a sefyllfa economaidd anodd, mae cynllun rheoli'r AoHNE yr union fath o ymagwedd gydweithredol a ysgogir gan y gymuned y mae ei hangen i sicrhau y caiff ein hamgylchedd naturiol ei gynnal am genedlaethau i ddod.

Rwy'n credu y dylai dynodiad yr AoHNE fod yn sbardun i ddefnyddio a rheoli adnoddau naturiol Gŵyr ac y caiff hyn ei hyrwyddo gan y fframwaith sydd bellach yn cael ei lunio gan ddeddfwriaeth Gymreig gyfoes - yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru).

Mae'r cynllun rheoli hwn yn gwneud y cyswllt pwysig rhwng pobl a natur. Mae cymunedau lleol wedi bod yn ganolog i ddatblygiad y cynllun ac mae angen iddynt fod wrth wraidd y broses o'i gyflwyno. Bydd brwdfrydedd ac ymroddiad parhaus y cymunedau sy'n dwlu ar benrhyn Gŵyr ac sy'n ymddiddori yn ei ddyfodol – gan amrywio o wirfoddolwr ar brosiectau bioamrywiaeth a threftadaeth i fusnesau lleol sy'n gweithio i hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy – yn allweddol wrth roi'r cynllun ar waith yn llwyddiannus.

Mae AoHNE Gŵyr yn dirwedd newidiol a bydd yn parhau i newid. Mae'r cynllun rheoli'n hanfodol i sicrhau mai er gwell yw'r newidiadau hyn. Hoffwn i ddiolch i bawb a helpodd i lunio'r cynllun hwn ac edrychaf ymlaen at weithio gyda chi wrth ei roi ar waith.

Y Cyng. Paul Lloyd
Cadeirydd, Partneriaeth AoHNE Gŵyr
Dinas a Sir Abertawe
Tachwedd 2016

Cynnwys

	Rhif y Dudalen
Cyflwyniad	3
Pennod 1 – Cyflwyniad	4
Pennod 2 – Adnoddau	12
Pennod 3 – Gweithgareddau a Phwysau	45
Pennod 4 – Y Weledigaeth	64
Pennod 5 – Y Strategaeth	68
Pennod 6 – Y Cynllun Gweithredu	83
Pennod 7 – Cyflwyno, Monitro ac Adolygu'r Cynllun	98


Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr

- 1.0 Mae Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AoHNE) yn rhai o dirweddau harddaf a mwyaf poblogaidd Prydain. Mae eu cymeriad unigryw a'u harddwch naturiol mor werthfawr fel bod eu diogelu o fudd i'r wlad. Bydd AoHNE yn cael ei dynodi i gydnabod ei phwysigrwydd cenedlaethol a sicrhau y caiff ei chymeriad a'i rhinweddau arbennig eu diogelu i bawb eu mwynhau. Mae tirwedd a harddwch AoHNE yr un mor bwysig â pharciau cenedlaethol a chânt eu cydnabod yn rhyngwladol fel ardaloedd a warchodir ^[1] gan yr IUCN.
- 1.1 Wedi'i ddewis am ei arfordir godidog a'i amgylchedd naturiol eithriadol, daeth penrhyn Gŵyr yn AoHNE yn y DU ym 1956. Mae AoHNE Gŵyr yn cynnwys arwynebedd tir o 188 cilometr sgwâr (73 milltir sgwâr) (Gweler Map 1), gyda 59 cilometr (37 milltir) o'i arfordir hefyd wedi'i ddynodi'n Arfordir Treftadaeth. Ac eithrio cornel fach drefol yn y gogledd-ddwyrain, mae penrhyn cyfan Gŵyr o fewn yr AoHNE. Mae daeareg Gŵyr yn creu amrywiaeth eang o olygfeydd mewn ardal gymharol fach. Mae'n amrywio o olygfeydd calchfaen carbonifferaidd gwych arfordir y de - rhwng Pen Pyrod a Bae Oxwich - i'r morfeydd heli a'r systemau twyni tywod yn y gogledd. Ym mherfeddwlad y penrhyn, y nodweddion amlycaf yw'r ardaloedd mawr o dir comin, dan gysgod cribau rhostir tywodfaen, gan gynnwys uchderau sylweddol Cefn Bryn. Mae dyffrynnoedd diarffordd yn cynnwys coetir collddail cyfoethog ac mae'r dirwedd amaethyddol draddodiadol yn glytwaith o gaeau wedi'u nodweddu gan waliau, cloddiau dan orchudd cerrig a gwrychoedd. Er nad yw'n rhan o'r rheswm am y dynodiad, mae gan yr AoHNE hefyd dreftadaeth archaeolegol ac adeiledig gyfoethog gyda mwy na 80 o henebion cofrestredig, bron 130 o adeiladau rhestredig a 2 ardal a gydnabyddir yn Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol.
- 1.2 Prif amcan dynodi Gŵyr yn AoHNE yw cadw a gwella ei harddwch naturiol. O dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, mae'n ofyniad i Ddinas a Sir Abertawe (DASA):
- “ymgymryd â phob cam gweithredu sy'n debygol o hwyluso cyflawni'r diben o gadw a gwella harddwch naturiol yr ardal...”
- 1.3 Yn ogystal, mae dyletswydd ar bob corff cyhoeddus o dan adran 85 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ac mae'n rhaid iddo 'roi ystyriaeth i'r diben o gadw a gwella harddwch naturiol yr ardal...' wrth gyflawni ei swyddogaethau.

^[1] Categori V System Gategoreiddio Ardaloedd a Warchodir yr Undeb Rhyngwladol er Cadwraeth Natur – gweler

http://www.iucn.org/about/work/programmes/gpap_home/gpap_quality/gpap_pacategories/

Map 1



- 1.4 Mae llawer o'r arfordir dan berchnogaeth cyrff sector cyhoeddus a gwirfoddol sydd hefyd yn eu rheoli, yn benodol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (sy'n berchen ar oddeutu 70%). Mae'r lleill yn cynnwys:
- DASA;
 - Cyfoeth Naturiol Cymru¹; ac
 - Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt De a Gorllewin Cymru.
- 1.5 Mae hefyd gan DASA rôl bwysig fel yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer yr AoHNE – pennu polisi cynllunio, rheoli datblygiadau a gorfodi yn eu cylch o dan y Deddfau Cynllunio Gwlad a Thref.
- 1.6 Mae'r rhan fwyaf o'r AoHNE dan berchnogaeth a rheolaeth breifat. Mae angen i ddynodiad yr AoHNE gefnogi'r rheolaeth sympathetig barhaus gan dirfeddianwyr, ffermwyr a chominwyr lleol sy'n hanfodol i gadw a gwella harddwch naturiol y dirwedd.
- 1.7 Partneriaeth AoHNE Gŵyr yw corff cynghori'r cyngor ar yr AoHNE a'i rheolaeth. Mae'r bartneriaeth yn gweithio i gefnogi gweithgarwch pawb – tirfeddianwyr, ffermwyr a busnesau lleol, ymwelwyr, grwpiau cymunedol ac unigolion – i gadw a gwella'r harddwch naturiol. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys y rhanddeiliaid allweddol yn yr AoHNE ac yn cynrychioli amrywiaeth eang o ddiddordebau. Mae'r cylch gorchwyl wedi'i ymgorffori yng nghyfansoddiad y cyngor, ac mae'r bartneriaeth yn cynnwys cynghorwyr DASA, cynrychiolwyr o CNC a 10 aelod arall sy'n cael eu hethol yn y fforwm blynyddol.
- 1.8 Mae Arfordiroedd Treftadaeth yn rhannau o arfordir eithriadol sydd heb eu datblygu yng Nghymru a Lloegr a nodwyd trwy gytundeb ag awdurdodau lleol. Ystyrir bod diogelu a rheoli Arfordir Treftadaeth Gŵyr – y mae'r cyfan ohono o fewn AoHNE Gŵyr – yn rhan annatod o'r AoHNE a'r cynllun rheoli hwn.

Cynllun Rheoli'r AoHNE

- 1.9 Mae'n ofyniad o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i'r cyngor lunio cynllun rheoli ar gyfer AoHNE Gŵyr. Y gofyniad yw 'paratoi a chyhoeddi cynllun sy'n llunio'r polisi ar gyfer rheoli'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a chyflawni swyddogaethau'r cyngor mewn perthynas â hi'. Mae hefyd yn ofyniad yn ôl Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i awdurdodau lleol adolygu cynlluniau rheoli AoHNE bob 5 mlynedd.
- 1.10 Mae CNC wedi cyhoeddi arweiniad ar gyfer paratoi ac adolygu cynlluniau rheoli AoHNE^[2]. Mae'r adolygiad hwn o'r cynllun wedi dilyn yr arweiniad hwnnw.

¹Ar 1 Ebrill 2013, cyfunodd CCGC, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru i greu Cyfoeth Naturiol Cymru

^[2] Cyngor Cefn Gwlad Cymru (2009). Cynlluniau Rheoli Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghymru – Arweiniad ar gyfer Adolygu Cynlluniau Rheoli.

- 1.11 I grynhoi, mae arweiniad CNC yn disgwyl y bydd y cynllun rheoli'n datblygu ac yn ehangu ar y weledigaeth ar gyfer yr AoHNE a'r camau gweithredu y bydd eu hangen i gadw a gwella'r nodweddion arbennig sy'n sail i'w dynodiad. Bydd hyn yn cysylltu'r nodweddion arbennig â'r materion cymdeithasol ac economaidd sylfaenol sy'n effeithio arnynt neu'n rhyngweithio â hwy. Nod y cynllun yw hyrwyddo ymagwedd integredig at gynllunio a rheoli tir ar lefel strategol. Er bydd y cynllun yn cynnwys polisïau'r awdurdod lleol, bydd hefyd yn cynnwys rhanddeiliad wrth ddatblygu'r weledigaeth ac esbonio sut byddant yn helpu i gyflawni'r amcanion.
- 1.12 Mae arweiniad CNC yn argymhell proses adolygu pum cam ar gyfer cynlluniau rheoli AoHNE:
- Cam 1 – Cyflwr yr AoHNE
 - Cam 2 – Strategaeth ar gyfer yr AoHNE
 - Cam 3 – Adrodd
 - Cam 4 - Ymgynghori Ffurfiol
 - Cam 5 – Monitro

Cynllun Rheoli AoHNE Gŵyr

Hanes ac Adolygiad y Cynllun Rheoli

- 1.13 Lluniodd Cyngor Sir Morgannwg 'Strategaeth ar gyfer Gŵyr' ym 1973, a nododd lawer o nodweddion a materion y pryd ond, yn bennaf, dogfen â ffocws ar bolisi cynllunio oedd hon.
- 1.14 Cyhoeddodd Cyngor Dinas Abertawe'r 'cynllun rheoli' cyntaf ar gyfer yr AoHNE ym 1990 a ymdriniodd â rheoli'r AoHNE mewn cyfres o bynciau (e.e. amaethyddiaeth; tir comin) a pharthau (e.e. Caswell/Pen y Mwmbwls; Oxwich a Phen-rhys).
- 1.15 Yn dilyn gofyniad Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy am gynlluniau rheoli AoHNE statudol, roedd dewis gan DASA i adolygu'r cynllun ar gyfer 1990 ond penderfynodd yr awdurdod ddechrau o'r newydd i sicrhau y caiff arweiniad cyfoes a gofynion statudol eu dilyn.
- 1.16 Mabwysiadwyd a chyhoeddwyd y cynllun rheoli statudol cyntaf ar gyfer AoHNE Gŵyr gan y cyngor yn 2006. Lluniwyd y cynllun o ganlyniad i ymgynghoriad pellgyrhaeddol gyda chyfranogiad rhanddeiliaid dros fwy na dwy flynedd mewn cyfarfodydd, grwpiau ffocws, ymweliadau safle, cyflwyniadau ac ymgynghoriadau.
- 1.17 Cychwynnwyd yr adolygiad cyntaf hwn o'r cynllun rheoli yn 2010 ond cafodd ei oedi am sawl rheswm. Cynhaliwyd gweithgareddau adolygu cyn cyhoeddi Cynllun Rheoli AoHNE Gŵyr (2016), gan gynnwys:
- Llythyrau hysbysu statudol (i Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) a Llywodraeth Cymru) am fwriad i adolygu'r cynllun rheoli
 - Gweithdai rhanddeiliaid (ym mis Mai 2010) i nodi materion allweddol ar gyfer adolygiad y cynllun rheoli

- Adroddiad cwmpasu ac ymgynghoriad SEA (yn hydref 2010) gyda CADW, CCGC ac Asiantaeth yr Amgylchedd (gyda'r ddau olaf bellach yn rhan o CNC); ac yn fwy diweddar
- Ymgynghoriad â Grŵp Llywio Partneriaeth AoHNE a Cyfoeth Naturiol Cymru (yn haf 2013) ynghylch adroddiad drafft am gyflwr yr AoHNE
- Ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun rheoli drafft a dogfennaeth ategol yn 2014/15.

Strwythur y Cynllun Rheoli

1.18 Mae'r cynllun rheoli'n cadw llawer o strwythur a fformat cynllun rheoli 2006 ac yn cynnwys y penodau canlynol:

Pennod	Diben
1: Cyflwyniad	Trosolwg o AoHNE Gŵyr; rheoli'r AoHNE a chynlluniau rheoli; cysylltiadau â chynlluniau a strategaethau eraill
2: Adnoddau	Diweddarau'r disgrifiad o nodweddion arbennig AoHNE Gŵyr – gan gynnwys eu maint a'u cyflwr – dan bedair thema: • Naturiol • Diwylliannol • Amgylcheddol • Hamdden
3: Gweithgareddau a Phwysau	Asesu gweithgareddau a phwysau sy'n effeithio ar nodweddion arbennig yr AoHNE a sut gallent newid yn y dyfodol.
4: Y Weledigaeth	Y weledigaeth 20 mlynedd gyffredinol ar gyfer yr AoHNE, gan fynegi'r cyflwr a ddymunir, gyda datganiadau gweledigaeth penodol ar gyfer 14 thema allweddol.
5: Y Strategaeth	Amcanion a pholisïau 5 mlynedd ar gyfer pob un o'r 14 thema allweddol.
6: Cynllun Gweithredu	Cynllun gweithredu 5 mlynedd (2014-18) i gyflawni'r amcanion a rhoi'r polisi ar waith.
7: Cyhoeddi, Monitro ac Adolygu	Gofynion monitro ac adolygu ar gyfer: • rhoi'r cynllun rheoli ar waith • adrodd am gyflwr nodweddion arbennig yr AoHNE

Perthynas Cynllun Rheoli'r AoHNE â Chynlluniau Eraill

1.19 Mae'r berthynas rhwng Cynllun Rheoli'r AoHNE a chynlluniau eraill yn bwysig gan ei bod yn nodi'r weledigaeth ar gyfer yr AoHNE sy'n seiliedig ar y nodweddion arbennig a sut caiff y rhain eu diogelu trwy bolisiâu datblygu cynaliadwy. Mae Cynllun Rheoli'r AoHNE yn gyfeirbwynt polisi i DASA – a chyrff cyhoeddus eraill – gyflawni eu dyletswyddau trwy ystyried cadw a gwella harddwch naturiol AoHNE Gŵyr.

1.20. Y prif ddogfennau polisi yw:

- Mae **Cynllun Datblygu Unedol (UDP)** Dinas a Sir Abertawe'n darparu'r cyd-destun polisi cynllunio mabwysiedig ar gyfer datblygu yn yr ardal hyd at 2016. Mae polisiâu cynllunio penodol – sy'n adlewyrchu polisi a deddfwriaeth cynllunio cenedlaethol – yn diogelu nodweddion arbennig yr AoHNE, ac mae polisiâu eraill yn rhoi cefnogaeth anuniongyrchol i'w diogelu (e.e. polisiâu bioamrywiaeth a'r amgylchedd adeiledig).
<http://www.abertawe.gov.uk/index.cfm?articleid=20475>
- Bydd y **Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)** yn lasbrint datblygu newydd ar gyfer y sir am y cyfnod hyd at 2025, a bydd yn amlinellu sut caiff y dyhead am dwf cynaliadwy ei wireddu. Ar ôl ei fabwysiadu, bydd y CDLI yn disodli'r CDU. Fodd bynnag, bydd diogelu harddwch naturiol yr AoHNE'n parhau'n brif ystyriaeth bolisi'r cynllun newydd.
<http://www.abertawe.gov.uk/index.cfm?articleid=28061>
- **Cynllun Un Abertawe 2013** yw'r Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Abertawe. Diben cyffredinol y cynllun newydd yw symleiddio'r dull o gyflwyno gwasanaethau er mwyn sicrhau bod pawb yn gweithio at yr un blaenoriaethau cytunedig. Bydd y Cynllun Integredig Sengl yn disodli'r strategaeth gymunedol bresennol a'r cynlluniau sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer diogelwch cymunedol; iechyd, gofal cymdeithasol a lles; a phlant a phobl ifanc. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys uchelgais i ddiogelu, gwella a hyrwyddo amgylchedd naturiol unigryw ac amrywiol Abertawe.
<http://www.abertawe.gov.uk/unabertawe>
- **Amser i Newid:** Lluniwyd a chyhoeddwyd **Strategaeth Amgylchedd Abertawe** gan Fforwm Amgylcheddol Abertawe (FfAA) i ddarparu gweledigaeth tymor hir a blaenoriaethau strategol ar gyfer amgylchedd naturiol ac adeiledig Abertawe.
<http://swanseaenvironmentalforum.net/environment-strategy/>
- **Cynlluniau a strategaethau lleol penodol i sectorau** sy'n rhyngweithio ag amcanion yr AoHNE neu'n eu cyflawni. Dyma rai o'r enghreifftiau allweddol:
 - Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Abertawe (CGBLI) Abertawe:

<http://www.abertawe.gov.uk/article/10114/Cynllun-Gweithredu-Bioamrywiaeth-Lleol-Abertawe>

- Cynllun Mynediad i Gefn Gwlad 2007-2017:
<http://www.abertawe.gov.uk/datblygucynaliadwy>
- Cynllun Rheoli Cyrchfannau Bae Abertawe:
<http://www.abertawe.gov.uk/article/6421/Cynllun-Rheoli-Cyrchfannau>
- Cynllun Rheoli Basnau Afonydd Gorllewin Cymru:
<http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20140328084622/http://www.environment-agency.gov.uk/cy/ymchwil/cynllunio/125095.aspx>

- 1.21 I fod yn glir, mae arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod bod y CDLI yn agwedd hanfodol wrth gynnal a chadw nodweddion arbennig yr AoHNE – hynny yw, caiff datblygu ei reoli trwy'r CDLI. Nid yw Cynllun Rheoli'r AoHNE yn bwysicach na'r CDLI ond disgwylir iddo roi syniad clir o sut dylai polisïau'r CDLI ymdrin â materion datblygu yn yr AoHNE.
- 1.22 Disgwylir i Gynllun Rheoli AoHNE Gŵyr (2016) fod yn Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) i'r CDU a fabwysiadwyd a'r CDLI sy'n cael ei ddatblygu. Mae tystiolaeth ac allbynnau eraill o'r cynllun ar gyfer 2016 (megis Canllaw Dylunio AoHNE Gŵyr 2011²) hefyd wedi cael eu mabwysiadu fel CCA.
- 1.23 Disgwylir i Gynllun Rheoli AoHNE Gŵyr (2016) fod yn Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) i'r CDLI sy'n cael ei ddatblygu. Mae tystiolaeth ac allbynnau eraill o'r cynllun ar gyfer 2016 (megis Canllaw Dylunio AoHNE Gŵyr 2011) hefyd wedi cael eu mabwysiadu fel CCA.²
- 1.24 Mae nifer o bolisïau/canllawiau cynllunio cenedlaethol wedi cael eu diweddarau'n ddiweddar, gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 7, Gorffennaf 2014), Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur, TAN 12: Dylunio a TAN 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored.
- 1.25 Yng nghyfnod y cynllun hwn, mae Llywodraeth Cymru'n rhoi rhaglen ddeddfwriaethol bwysig ar waith a fydd yn effeithio ar reoli a llywodraethu'r AoHNE. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru), Deddf Cynllunio (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol oll yn effeithio ar Gynllun Rheoli'r AoHNE. Hefyd mae Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru ar waith o hyd sydd wedi arwain at Adroddiad Marsden a gwaith cydweithredol parhaus o dan y rhaglen Tirweddau Dyfodol Cymru³.

² Dinas a Sir Abertawe (2011). Y diweddaraf am Ganllaw Dylunio AoHNE Gŵyr.
<http://www.abertawe.gov.uk/cca>

³ <http://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/review-designated-landscapes-wales/?skip=1&lang=cy>

PENNOD 2 ADNODDAU

2.1 Mae Pennod 2 yn disgrifio ac yn asesu'r ddealltwriaeth bresennol o nodweddion arbennig yr AoHNE, eu cyflwr a grymoedd newid sy'n effeithio arnynt.

2.2 Rhennir y nodweddion arbennig yn ôl pedair thema:

Thema	Nodweddion arbennig
Naturiol	Bioamrywiaeth
	Daeareg
	Tirwedd
	Morwedd
Diwylliannol	Archaeoleg
	Tirweddau Hanesyddol
	Parciau a Gerddi Hanesyddol
	Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth
Amgylcheddol	Ansawdd Aer
	Ansawdd Dŵr
	Ansawdd Pridd
	Llonyddwch
Hamdden	Hawliau Tramwy Cyhoeddus
	Tir Mynediad
	Traethau

2.3 Mae'r adrannau canlynol yn mynegi'r canlynol ar gyfer pob un o'r nodweddion arbennig a nodwyd:

- Cyflwr y nodwedd arbennig – ei natur, ei chymeriad ac, yn benodol, ei maint, ei chyflwr a pham mae'n bwysig
- Ysgogwyr newid – megis newid yn yr hinsawdd, ysgogwyr polisi, defnyddio adnoddau a phwysau hamdden

- Y tueddiadau sy'n amlwg yng nghyflwr y nodweddion a gafwyd ers llunio'r cynllun diwethaf
- Y newidiadau neu'r tueddiadau sydd ar waith ar hyn o bryd (neu a allai ddigwydd yn y dyfodol) a allai arwain at leihau neu wella'r nodwedd
- Dangosyddion posib y gellid eu defnyddio i fonitro newid dros y pum mlynedd nesaf.

Thema: Nodwedd Arbennig Naturiol: Bioamrywiaeth

- 2.4 Mae gan AoHNE Gŵyr amrywiaeth eang a nodedig o gynefinoedd a rhywogaethau sy'n cael blaenoriaeth cadwraeth yng Nghymru yn ogystal â rhywogaethau sydd o bwys lleol. Cydnabyddir pwysigrwydd yr AoHNE trwy nifer mawr y safleoedd sydd dan warchodaeth ryngwladol, genedlaethol a lleol.

Cyflwr y Nodwedd Arbennig

- 2.5 Mae'r AoHNE yn cynnwys amrywiaeth o ddynodiadau o sawl math a maint gan adlewyrchu pwysigrwydd yr ardal o ran bioamrywiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Pum safle â dynodiadau Ewropeaidd a rhyngwladol (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)); Gwlyptiroedd o Bwys Rhyngwladol (Safleoedd Ramsar) Ardaloedd Gwarchod Arbennig (AGA)
 - Dynodiadau cenedlaethol (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (20 â nodweddion biolegol) a 3 Gwarchodfa Natur Genedlaethol)
 - Dynodiadau a safleoedd eraill (Gwarchodfeydd Natur Lleol; Gwarchodfeydd Bywyd Gwyllt yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt a'r Ymddiriedolaeth Coetiroedd; Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SBCN), Safleoedd Coetir Hynafol (SCH) a Safleoedd Coetir Hynafol a Blannwyd (SCHP).
- 2.6 Dangosir y safleoedd allweddol â dynodiad statudol (ACA, AGA a SoDdGA) ar Fap 2.
- 2.7 Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Abertawe ⁴ (CGBLI, 2005) yn amlinellu fframwaith ar gyfer diogelu, rheoli, gwella a hyrwyddo amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth Abertawe. Mae'r CGBLI yn nodi dros 20 o gynefinoedd â blaenoriaeth yn yr AoHNE a llawer mwy o rywogaethau â blaenoriaeth.

Ysgogwyr Newid

- 2.8 Mae 46 o Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SBCN) ymgeisiol yn Ninas a Sir Abertawe, â chyfanswm arwynebedd o 3,197 hectar. Safleoedd anstatudol yw SBCN sy'n bwysig o ran cadwraeth natur gan eu bod yn cynnal cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth cadwraeth natur yng Nghymru. Mae SBCN Abertawe wedi cael eu hailarolygu a'u hailwirio ond caiff SBCN eu gwirio'n barhaus yn erbyn meini prawf a bennwyd yn 'Canllawiau ar gyfer Safleoedd Bywyd Gwyllt Cymru' gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2008; pan fydd y broses hon wedi'i chwblhau, bydd y canlyniadau'n elfen bwysig o'r data gwaelodlin amgylcheddol am yr AoHNE.
- 2.9 Mae Adran 42 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (ANChG) 2006 yn gosod dyletswydd fioamrywiaeth ar bob corff cyhoeddus

⁴ Partneriaeth Bioamrywiaeth Abertawe, 2005. Hyrwyddo Amgylchedd Naturiol Abertawe: Strategaeth a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.

(gan gynnwys DASA) i roi “ystyriaeth i ddiben cadwraeth bioamrywiaeth wrth gyflawni ei swyddogaethau”. Yn yr un modd, mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROW) 2000 yn gosod dyletswydd ar DASA i roi ystyriaeth i gadwraeth bioamrywiaeth a chynnal rhestrau o rywogaethau a chynefinoedd y dylid cymryd neu hybu camau cadwraeth ar eu cyfer.

- 2.10 Mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru wedi datblygu Mapiau Ardal Gweithredu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (CGB) â blaenoriaeth i alluogi partneriaid a grwpiau CGB lleol flaenoriaethu camau gweithredu ynghylch y cynefinoedd/rhywogaethau hynny lle mae'r angen i'w rheoli ar ei fwyaf. Mae Ardaloedd Gweithredu Blaenoriaeth sy'n berthnasol i AoHNE Gŵyr yn cynnwys:

- Glaswelltiroedd Corslyd Cymoedd De Cymru
- Glaswelltiroedd a Rhostiroedd Calchfaen Arfordir Gŵyr
- Tir comin Gŵyr
- Tir Âr Gŵyr
- Clogwyn Meddal Arfordirol
- Twyni Tywod Cymru

- 2.11 Mae CGBLI Abertawe'n cael ei adolygu ar hyn o bryd er mwyn cynnwys newidiadau megis y rhai yn rhestr Adran 42 ANChG, setiau data newydd a gwaith ar gysylltadwyedd cynefinoedd.


Tueddiadau Presennol ac yn y Dyfodol

- 2.12 Dynodiadau Ewropeaidd a Rhyngwladol:

Mae cynlluniau rheoli craidd ar gyfer pedair o'r pum ACA yn yr AoHNE sy'n nodi'r weledigaeth, yr amcanion cadwraeth a'r dangosyddion perfformiad ar gyfer pob nodwedd cynefin a rhywogaeth Ewropeaidd. Hefyd nodir y farn gyfredol am gyflwr pob nodwedd (ffafriol neu anffafriol, ar sail adroddiadau monitro lle bo'r rhain ar gael), ynghyd â gofynion rheoli a'r cynllun gweithredu. Ymdrinnir â'r ACA sy'n weddill - ACA Bae a Morydau Caerfyrddin (gan gynnwys Ardal Gwarchodaeth Arbennig a Safle Ramsar Moryd Llŵchwr) - yng nghyngor Cyfoeth Naturiol Cymru o dan Reoliad 35 Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 i'r awdurdodau perthnasol (yr awdurdodau a'r asiantaethau statudol amrywiol sy'n gyfrifol am Safleoedd Morol Ewropeaidd) o ran amcanion cadwraeth y safle, a chynghor ar ba weithgareddau a allai ddifrodi neu darfu ar y nodweddion arbennig. Mae'r Grŵp Awdurdodau Perthnasol wedi datblygu cynllun rheoli ar gyfer y safle⁵.

⁵ <http://english.cbeems.org/management/management-scheme/>

Map 2



2.13 Dynodiadau Cenedlaethol:

O'r 26 SoDdGA presennol yn yr AOHNE, mae gan 20 nodweddion biolegol a daearegol/geomorffolegol sydd o ddiddordeb (SoDdGA daearegol/geomorffolegol yw'r safleoedd eraill). Nid oes asesiad crynodeb ar gael o gyflwr y nodweddion hyn ar draws yr AOHNE, ond mae materion crynodeb allweddol sy'n effeithio ar yr ACA/SoDdGA yn cynnwys:

- Gorburi a thanburi;
- prysgwydd ymledol;
- rheoli tir comin yn gynaliadwy; a
- rheoli rhywogaethau ymledol/anfroddol.

2.14 Dynodiadau Eraill:

Nid oes gwybodaeth gyfredol ar gael am gyflwr neu dueddiadau presennol sy'n effeithio ar safleoedd dynodedig eraill. Fel a ddisgrifiwyd uchod, mae Tîm Cadwraeth Natur DASA wedi adolygu'r gyfres bresennol o SBCN yn y sir.

2.15 Bioamrywiaeth - Cynefinoedd a Rhywogaethau:

O'i gymharu â sawl rhan arall o Gymru, nid oes llawer o rywogaethau anfroddol ymledol (RhAY) yng Ngŵyr ar hyn o bryd, ond gallai hyn newid yn y dyfodol (trwy weithredoedd bwriadol, damweiniol neu naturiol) oherwydd ei amrywiaeth eang o gynefinoedd. Mae sawl RhAY wedi'i chofnodi yng Ngŵyr. Dyma rai enghreifftiau o rywogaethau hysbys ac ardaloedd mewn risg:

- Cotoneaster a derw bytholwyrdd ar glogwyni de Gŵyr
- Ffromlys chwarennog a chanclwm Japan o Fae'r Tri Chlogwyn hyd at Parkmill a Llanilltud Gŵyr
- *Crassula helmsii* yn Broadpool

2.16 Mae rhywogaethau eraill yn cynnwys *Montbretia*, ffigys y penrhyn a *Sedum album*. Yn ogystal â bygwth cynefinoedd, gallai RhAY beryglu llawer o nodweddion arbennig eraill yr AOHNE hefyd, e.e safleoedd a nodweddion hanesyddol.

2.17 Mae lledaeniad clefydau coed sydyn diweddar - megis clefyd coed ynn – wedi tynnu sylw at y materion bioddiogelwch sy'n effeithio ar reolaeth tir yn y DU. Yr onnen yw'r rhywogaeth fwyaf cyffredin o goed mewn llawer o goetiroedd brodorol Gŵyr; byddai colli nifer sylweddol o goed ynn aeddfed yn amharu ar fioamrywiaeth a chymeriad tirwedd yr AOHNE.

2.18 Nid yw effeithiau tymor hwy'r newid rhagfynedig yn yr hinsawdd ar gynefinoedd a rhywogaethau allweddol yr AOHNE wedi cael eu hasesu.

Monitro a Dangosyddion Posib

2.19

- Statws cadwraeth ffafriol safleoedd â dynodiad Ewropeaidd yn yr AoHNE
- Cyflwr nodweddion SoDdGA biolegol yn yr AoHNE
- Adrodd am gyflwr safleoedd SBCN yn yr AoHNE
- Monitro cynnydd y CGBLI trwy'r System Adrodd Gweithredu Bioamrywiaeth
- Ymlediad/Dosbarthiad RhAY

Thema: Nodwedd Arbennig Naturiol: Daeareg

Cyflwr y Nodwedd Arbennig

- 2.20 Mae'r AoHNE'n cynnwys amrywiaeth eang o safleoedd sy'n bwysig o ran eu daeareg a'u geomorffoleg, gan adlewyrchu'r ddaeareg amrywiol yn yr ardal. Gellir rhannu'r nodweddion allweddol fel a ganlyn:
- Rhannau o glogwyni arfordirol mewn calchfaen carbonifferaidd (ynghyd â ffosiliau cysylltiedig)
 - Dyddodion a thirffurfiau Cwaternaidd e.e. terasau priddlif ar ben gweddillion bach 'traethau uwch', gwaddodion ogofeydd a ffosiliau cysylltiedig
 - Geomorffoleg arfordirol (e.e. clogwyni, llyfndiroedd tonnau, traethau a systemau twyni helaeth)
 - Golygfeydd carst (e.e. dyffrynnoedd sych, llyncdyllau ac ailymddangosiad cyrsiau dŵr, systemau ogofeydd)
 - Cribau hen dywodfaen coch ac allfrigau creigiau cysylltiedig

Ysgogwyr Newid

- 2.21 Mae'r CDU yn cynnwys polisiau cynllunio sy'n diogelu ac yn gwella SoDdGA a Safleoedd o Bwys Daearegol Rhanbarthol (SBDRh). Ni chafodd unrhyw SBDRh eu mabwysiadu'n ffurfiol gan y CDU, er bod y rhain bellach yn cael eu hystyried yn y CDLI sy'n cael ei ddatblygu.
- 2.22 Mae Arolwg Daearegol Prydain (BGS) wedi cyhoeddi gwybodaeth am SBDRh yn Abertawe. Mae'r adroddiad yn nodi meini prawf asesu SBDRh a chyfres o naw safle y cynigir y dylid eu dynodi'n SBDRh, mae wyth ohonynt yn yr AoHNE. Mae angen mwy o waith i nodi a gwerthuso cyfres lawn o SBDRh ar draws Abertawe.
- 2.23 Prosiect partneriaeth oedd Prosiect Dim Gwastraff yn Ein Tirwedd i dynnu sylw tirfeddianwyr at sut mae gollwng a defnyddio deunyddiau gwastraff mewn modd ansensitif – megis rwbel adeiladu neu bridd diangen – yn gallu achosi difrod i nodweddion daearegol, tirwedd a threftadaeth, bywyd gwyllt ac amgylchedd yr AoHNE na fyddai modd ei wrthdroi. Mae digwyddiadau cymharol fach yn anodd eu nodi, eu monitro a'u rheoleiddio, ond gallent gael effeithiau cronnus sylweddol.

Tueddiadau Presennol ac yn y Dyfodol

- 2.24 O'r 26 SoDdGA presennol yn yr AoHNE, mae gan 15 nodweddion o ddiddordeb daearegol neu geomorffolegol; mae rhai o'r rhain o bwysigrwydd rhyngwladol i wyddoniaeth daearegol. Nid oes unrhyw asesiad crynodeb cyhoeddedig o gyflwr nodweddion daearegol SoDdGA ar draws yr AoHNE. Mae ystyriaeth ddiweddar gan CNC o'r mater hwn yn nodi bod y nodweddion hyn, yn gyffredinol, mewn cyflwr ffafriol. Fodd bynnag, mae sawl mater sy'n peri pryder, gan gynnwys:
- Olion aflonyddwch gan bobl ar nodweddion ogofeydd a'r angen i gofnodi a churadu canfyddiadau o ogofeydd

- Aflonyddwch gan bobl ac erydiad naturiol yn difrodi allfrigau daearegol
- Mae coed a llystyfiant arall yn cuddio allfrigau daearegol sy'n werthfawr at ddiben astudiaeth ac ymchwil

2.25 Yn y tymor hwy, mae cynnydd yn lefel y môr o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd yn debygol o effeithio ar rai o nodweddion daearegol arfordirol yr AoHNE, yn ogystal â rhai o'r systemau ogofeydd a'u dalgylch draeniad tanddaearol.

Monitro a Dangosyddion Posib

2.26

- Asesiadau o gyflwr nodweddion daearegol SoDdGA
- Mae adroddiad SBDRh y BGS yn cyflwyno gwybodaeth dda am y SBDRh a nodwyd a allai fod yn ddata gwaelodlin addas ar gyfer monitro cyflwr nodweddion.

Thema: Nodwedd Arbennig Naturiol: Tirwedd

2.27 Roedd ansawdd ac amrywiaeth tirwedd Gŵyr, a hynny mewn ardal mor fach, wrth wraidd y rheswm gwreiddiol dros ddynodi'r penrhyn yn AoHNE ac amrywiaeth tirwedd Gŵyr yr AoHNE uchaf i gael ei dynodi yn y DU o ran ei thirwedd a'i harddwch (gyda'r un statws â pharciau cenedlaethol o ran y nodweddion hynny). Mae'r arfordir hefyd wedi'i ddynodi'n Arfordir Treftadaeth – sy'n cael ei gydnabod fel un o'r rhannau mwyaf eithriadol o arfordir heb ei ddatblygu yng Nghymru a Lloegr.

Statws yr Ansawdd Arbennig

2.28 Mae Gŵyr yn un o'r 48 ardal cymeriad tirwedd rhanbarthol a nodwyd gan CNC⁶. Mae gan dirwedd Gŵyr ei hymdeimlad unigryw o le; mae nodweddion a rhinweddau'r dirwedd a'r dylanwadau ar y dirwedd wedi cael eu cofnodi a'u gwerthuso mewn set ddata sy'n genedlaethol gyson.

2.29 LANDMAP yw'r dull a ddefnyddir i asesu pwysigrwydd a gwerth tirwedd yng Nghymru. Nododd yr astudiaeth LANDMAP o Abertawe naw math o gymeriad tirwedd o fewn AoHNE Gŵyr. Mae LANDMAP bellach wedi cyfeirio'r broses o lunio a chyhoeddi Asesiad Cymeriad Tirwedd (ACT) ar gyfer yr AoHNE⁷. Mae'r asesiad systematig hwn yn nodi ac yn disgrifio 40 Ardal Cymeriad Tirwedd yn yr AoHNE. Mae'r disgrifiad ar gyfer pob ardal gymeriad yn cynnwys:

- Rhinweddau arbennig a nodweddion allweddol;
- Canllawiau rheoli; a
- Chryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau.

Ysgogwyr Newid

2.30 Bu'r cynllun ar 2016 a roddwyd ar waith yn cyflwyno polisïau CDU penodol sy'n diogelu harddwch naturiol yr AoHNE rhag datblygu amhriodol; mae Canllaw Dylunio'r AoHNE wedi cael ei lunio a'i gyhoeddi fel Canllawiau Cynllunio Atodol.

2.31 Arweiniodd yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru at gyfres o argymhellion yn Adroddiad Marsden a gwaith cydweithredol parhaus yn rhaglen Tirweddau Dyfodol Cymru.

Tueddiadau Presennol ac yn y Dyfodol

⁶ Ymgynghorwyr Defnydd Tir a Phrifysgol Sheffield ar gyfer Cyngor Cefn Gwlad Cymru (2007). Map Cymeriad Tirwedd Cymru. Gweler: <http://www.ccw.gov.uk/idoc.ashx?docid=dc3096a3-4149-409d-8a45-50ffc1ad72b4&version=-1>.

⁷ Partneriaeth Tirwedd Gŵyr (2013). Asesiad Cymeriad Tirwedd Gŵyr. <http://www.abertawe.gov.uk/index.cfm?articleid=50163>

- 2.32 Mae'r ACT bellach yn rhoi data gwaelodlin gwrthrychol addas y gellir ei ddefnyddio i asesu newidiadau i'r dirwedd yn y dyfodol ym mhob un o'r 40 o ardaloedd cymeriad.
- 2.33 Mae'r dystiolaeth bresennol i asesu maint y newid i'r dirwedd yn gyfyngedig. Disgwylir cwblhau diweddaru data LANDMAP ar gyfer Gŵyr o fewn cyfnod y cynllun hwn a gallai'r rhain gynorthwyo wrth nodi newid a thueddiadau. Er nad oes llawer o ddatblygiadau sylweddol wedi effeithio ar yr AoHNE hyd yn hyn, mae tirweddau a nodweddion allweddol yn parhau'n agored i niwed trwy newidiadau bach a graddol a all arwain at effeithiau cronrus gyda threigl amser; mae'n anodd mesur ac ymateb i'r effeithiau hyn.

Monitro a Dangosyddion Posib

- 2.34 Gosodwyd cyfres o leoliadau ffotofonitro sefydlog yn 2007/8 i ddechrau monitro tirwedd yr AoHNE; hyd yma, nid yw'r broses ffotograffiaeth hon wedi cael ei hailadrodd. Tynnwyd cyfres manwl o awyrluniau arosgo o'r AoHNE ac mae'r rhain ar gael at ddefnydd anfasnachol⁸.
- 2.35 Mae egwyddor ffotofonitro sefydlog a ailadroddir bob ychydig flynyddoedd yn un werthfawr. Fodd bynnag, gallai fod yn anodd ail-greu methodoleg a chanlyniadau'r broses fonitro ar gyfer 2007/8 ac nid ydynt yn ffurfio rhaglen lawn a gwrthrychol i roi tystiolaeth o newid i'r dirwedd ar draws yr AoHNE. Cynigir rhaglen ffotofonitro ddiwygiedig, gan adeiladu ar yr ACT a'r cynnydd a wnaed ar fethodoleg ffotofonitro mewn AoHNE eraill.

⁸ <http://www.pixaerial.com/>

Thema: Nodwedd Arbennig Naturiol: Morwedd

- 2.35 Gyda 70km o arfordir, mae morwedd yn agwedd bwysig ar gymeriad yr AoHNE. Mae llawer o'r arfordir wedi'i ddynodi hefyd fel Arfordir Treftadaeth. Mae llawer o olygfeydd clasurol Gŵyr – megis Rhosili, Pen Pyrod a Bae'r Tri Chlogwyn – yn cynnwys yr arfordir a'r môr y tu draw. Yn llai adnabyddus mae'r golygfeydd o'r arfordir oddi ar y môr. Mae'r holl elfennau hyn yn cyfrannu'n sylweddol at rinweddau arbennig yr AoHNE.

Statws y Rhinwedd Arbennig

- 2.36 Roedd asesiad o Forweddau Cymru (CNC, 2009⁹) yn canolbwyntio ar yr agwedd weledol neu olygfaol ar yr arfordir, ond hefyd yn rhoi cyd-destun mewn perthynas ag agweddau daearegol, defnydd tir, hanesyddol a diwylliannol. Roedd yr astudiaeth hefyd yn asesu sensitifrwydd pob morwedd i fathau datblygu alltraeth dethol.
- 2.37 Roedd yr arolwg morwedd yn rhoi disgrifiad gwaelodlin gwerthfawr o'r forwedd o gwmpas arfordir yr AoHNE. Mae crynodebau'r adroddiad o'r ardaloedd morwedd sy'n berthnasol i benrhyn Gŵyr ar gael yn Atodiad 1 ac yn cynnwys:
- 43 – Moryd Llwchwr
 - 44 – Trwyn Whiteford i Ben Pyrod – Bae Rhosili
 - 45 – Pen Pyrod i'r Mwmbwls – De Gŵyr

Ysgogwyr Newid

- 2.38 Mae cynllunio morol wedi cael ei ailstrwythuro'n sylweddol ers cyflwyno Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Mae'r ddeddf yn cynnwys system cynllunio morol newydd a fydd yn ymdrin â phob gweithgaredd morol allweddol. Bydd y system cynllunio morol yn arwain ac yn cyfeirio penderfynwyr a defnyddwyr y môr tuag at ddefnydd mwy cynaliadwy o'r môr, gan sicrhau cyswllt cryf rhwng polisi a datblygiadau a gweithgareddau unigol.
- 2.39 Mae Datganiad Polisi Morol y DU yn amlinellu'r fframwaith polisi ar gyfer moroedd y DU ac yn rhoi'r cyd-destun i ddatblygu cynlluniau morol. Bydd cynlluniau morol yn darparu polisi ac arweiniad manylach ar lefel gwlad neu ranbarth. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gynllunio morol sy'n ofynnol o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Bydd y cynlluniau morol yn amlinellu polisiâu ar gyfer datblygu cynaliadwy yn amgylchedd morol Cymru.
- 2.40 Mae Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 hefyd yn cynnwys system trwyddedu morol newydd sy'n atgyfnerthu ac yn moderneiddio'r cyfundrefnau cydsyniol presennol.
- 2.41 Mae cynigion i greu fferm wynt Atlantic Array wedi cael eu tynnu'n ôl gan y datblygwyr. Fodd bynnag, gallai datblygiadau ynni adnewyddadwy arfaethedig

⁹Cyngor Cefn Gwlad Cymru (2009). Morweddau Cymru a'u sensitifrwydd i ddatblygiadau alltraeth. <http://www.ccg.gov.uk/landscape--wildlife/protecting-our-landscape/seascapes/seascape-assessment-of-wales.aspx>

eraill ar gyfer Môr Hafren effeithio ar y forwedd a golygfeydd allweddol o'r AoHNE.

- 2.42 O gwmpas yr arfordir, mae Cynllun Rheoli Traethlin Trwyn Larnog i Ben y Santes Ann yn asesiad sylweddol o'r risgiau sy'n gysylltiedig ag erydu a llifogydd arfordirol. Mae'r CRhT hefyd yn cyflwyno polisiau i helpu i reoli'r risgiau hyn i bobl ac i amgylchedd datblygedig, hanesyddol a naturiol mewn modd cynaliadwy. Mae'r cynllun presennol (CRhT2) yn nodi ymagweddau polisi at rannau rheolaeth arfordirol o gwmpas yr AoHNE.

Tueddiadau Presennol ac yn y Dyfodol

- 2.43 Mae'r dystiolaeth bresennol i asesu maint y newid i'r forwedd yn gyfyngedig, er y disgwylir i arfordir a morwedd yr AoHNE fod yn sensitif i newid yn y dyfodol o ganlyniad i'r canlynol:
- Datblygiadau alltraeth
 - Effeithiau newid yn yr hinsawdd a chynnydd yn lefel y môr
 - Rhoi polisiau/prosiectau rheoli llifogydd/erydu gweithredol ar waith
 - Defnyddiau hamdden

Monitro a Dangosyddion Posib

- Mae angen ystyried a datblygu methodoleg fonitro briodol ar gyfer morwedd. Bydd angen sicrhau cysylltiadau da rhwng hon ac unrhyw broses ffotofonitro lleoliad sefydlog/asesu cymeriad tirwedd.

Thema: Rhinwedd Arbennig Ddiwylliannol: Archaeoleg

Statws y Rhinwedd Arbennig

- 2.44 Ceir 83 o henebion cofrestredig yn yr AoHNE, a llawer o safleoedd archaeolegol a chofnodion eraill, gydag enghreifftiau o'r rhan fwyaf o gyfnodau – o ogofeydd Paleolithig Diweddar (a rhai o weddillion dynol cynharaf y DU) i barcdiroedd a threftadaeth ddiwydiannol y ddeunawfed ganrif.
- 2.45 Mae crynodeb o'r wybodaeth am gyflwr yr henebion cofrestredig ar gael gan Cadw, oherwydd bod y Wardeniaid Henebion Maes yn ymweld â'r henebion yn rheolaidd ac yn llunio adroddiad am eu cyflwr.

Ysgogwyr Newid

- 2.46 Mae polisïau cenedlaethol (ym Mholisi Cynllunio Cymru, Pennod Chwech: Cadw'r Amgylchedd Hanesyddol, yr wythfed argraffiad: mis Ionawr 2016) a pholisïau CDU cyfredol yn diogelu henebion cofrestredig a safleoedd ar Gofnod yr Amgylchedd Hanesyddol (CAH) rhag datblygu niweidiol, gan gynnwys safleoedd heb eu cofrestru. Elusen o fewn Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent (YAMG) yw CAH. Disgwylir i'r CDLI sy'n cael ei ddatblygu gynnwys polisïau tebyg. Mae angen cydsyniad heneb gofrestredig hefyd ar gyfer gweithgareddau eraill a allai effeithio arnynt, ond mae'r safleoedd mewn perygl o hyd o, er enghraifft, erydu trwy ddefnyddiau hamdden a gweithgareddau trydydd parti eraill.
- 2.47 Mae'r fframwaith statudol presennol i ddiogelu'r amgylchedd hanesyddol a'r dogfennau arweiniol ar gyfer ei roi ar waith yn cynnwys:
- Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016
 - Cylchlythyr 60/96 y Swyddfa Gymreig, Cynllunio a'r Amgylchedd
 - Cylchlythyr 61/96 y Swyddfa Gymreig, Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth
 - Canllaw Arfer Da ar Ddefnyddio'r Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru yn y Broses Gynllunio a Datblygu (Ail Argraffiad, Cadw 2007).
- 2.48 Cyhoeddodd Cadw gyfres o Egwyddorion Cadwraeth yn 2011, gyda'r bwriad o ddarparu arweiniad i ddiogelu a rheoli'r amgylchedd hanesyddol. Mae Cadw'n argymhell yn gryf y dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'r rhain wrth wneud penderfyniadau. Dyma'r chwe egwyddor:
- Caiff asedau hanesyddol eu rheoli i gynnal eu gwerthoedd.
 - Mae'n hanfodol deall arwyddocâd asedau hanesyddol.
 - Adnodd a rennir yw'r amgylchedd hanesyddol.
 - Bydd pawb yn gallu cymryd rhan wrth gynnal yr amgylchedd hanesyddol.
 - Mae'n rhaid i benderfyniadau am newid fod yn rhesymol, yn dryloyw ac yn gyson.
 - Mae'n hanfodol cofnodi penderfyniadau a dysgu ohonynt.

- 2.49 Ni waeth a yw nodwedd yn gofrestredig neu beidio, mae ymagwedd sensitif at reoli nodweddion archaeolegol gan berchnogion a rheolwyr tir yn allweddol i'w diogelu.
- 2.50 Mae ffactorau sy'n debygol o effeithio (yn andwyol ac yn fuddiol) ar yr adnodd archaeolegol yn cynnwys:
- Gwaith datblygu a chyfleustodau anaddas
 - Gweithgareddau rheoli tir ansensitif
 - Gweithgareddau hamdden
 - Prysglwyni a llystyfiant ymledol
 - Diffyg ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd
 - Newid yn yr hinsawdd e.e. cynnydd yn lefel y môr, erydiad safle neu ddifrod i fawn a systemau twyni tywod, y mae llawer ohonynt yn cynnwys olion archaeolegol a thystiolaeth fregus o'r amgylchedd hynafol
 - Gwaith amaethyddol a choedwigaeth (e.e. tyfu/torri tyweirch i'w gwerthu, aredig, draenio, plannu a chymynu);
 - Creu safleoedd carafanau a gwersylla gyda gwasanaethau a mannau llawr caled
 - Trefniadau mynediad cyhoeddus megis llwybrau cerdded a chefn gwlad agored (hysbysfyrddau, erydu – gan gynnwys trwy feicio/yrro cerbydau oddi ar y ffordd, fandaliaeth a lladrad) yn gallu newid y nifer sy'n ymweld â safleoedd sy'n archaeolegol sensitif.
- 2.52 Mae Strategaeth yr Amgylchedd Hanesyddol (ail argraffiad, 2013) yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ynghylch newidiadau i ddiogelu treftadaeth gan fod Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) bellach yn mynd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd rhoi'r bil ar waith yn effeithio ar reoli asedau hanesyddol yng Nghymru.
- 2.53 Mae mentrau yn nhirweddau eraill Cymru sydd dan warchodaeth yn cynnwys datblygu 'rhestrau lleol' a gallent fod yn ffordd ymlaen o ran diogelu treftadaeth Gŵyr. Mae Rhestrau Lleol yn cydnabod gwerth ac arwyddocâd safleoedd treftadaeth o bwysigrwydd lleol i'r dirwedd a chymunedau lleol. Mae llunio Rhestr Leol yn rhoi llais i gymunedau lleol, gan eu helpu i nodi a chydabod yr asedau hanesyddol sy'n bwysig i'r ardal leol a'i phobl mewn modd ffurfiol. Mae Rhestrau Lleol yn dathlu treftadaeth leol ac yn sicrhau ei bod yn cael ei gwerthfawrogi.

Tueddiadau Presennol ac yn y Dyfodol

- 2.54 Mae Cadw yn dal gwybodaeth am dueddiadau sy'n effeithio ar henebion cofrestredig, ond ychydig o wybodaeth sydd ar gael am dueddiadau sy'n effeithio ar safleoedd/adnoddau archaeolegol heb eu cofrestru ar draws yr AoHNE.
- 2.55 Mae adroddiad diweddar ar gyfer Cadw wedi ystyried effaith uniongyrchol y newid yn yr hinsawdd ar amgylchedd hanesyddol Cymru. Ledled Cymru,

rhagwelir mai'r perygl mwyaf i dirweddau hanesyddol fydd o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd. Nod camau nesaf y gwaith yw ymdrin â'r angen am sylfaen dystiolaeth gywir a gwell leol o ba asedau hanesyddol a allai fod mewn perygl a ble.

Monitro a Dangosyddion Posib

2.56

- Cyflwr henebion cofrestredig - Mae Wardeniaid Henebion Maes Cadw'n ymweld â henebion cofrestredig yn rheolaidd
- Cyflwr safleoedd CAH – mae rhai safleoedd CAH wedi derbyn ymweliadau gan grwpiau cymunedol dan arweiniad yr Ymddiriedolaeth a phrosiectau megis Glastir ac Arfordir, ac mae rhai wedi bod yn destun Prosiect Tirweddau Gŵyr

Thema: Rhinwedd Arbennig Ddiwylliannol: Tirweddau Hanesyddol

- 2.57 Mae'r enghreifftiau gorau o'r gwahanol fathau o dirweddau hanesyddol yng Nghymru wedi'u cynnwys ar y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru. Mae Gŵyr yn un o'r ardaloedd mwyaf archaeolegol gyfoethog yng Nghymru.

Statws Rhinwedd Arbennig

- 2.58 Mae'r ddwy ardal archaeolegol gyfoethog fwyaf cyflawn ar y penrhyn sydd wedi goroesi yn y cyflwr gorau (Gorllewin Gŵyr a Chefn Bryn) wedi cael eu nodi ar y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru. Mae'r ddwy ardal yn gorchuddio tua 30% o'r AoHNE.
- 2.59 Cynhaliodd Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent (YAMG) asesiad cymeriad tirwedd hanesyddol o'r AoHNE gyfan yn 2006. I gyd-fynd â hwn, darparwyd disgrifiad o gymeriad gogledd-ddwyrain Gŵyr ar gyfer ardal sy'n ymylu ar yr AoHNE yng nghyffiniau Crofty a Phenclawdd. Mae'r astudiaethau hyn wedi cyfeirio datblygiad yr ACT (gweler Tirwedd uchod) a'r canllawiau rheoli arfaethedig.

Ysgogwyr Newid

- 2.60 Gall Strategaeth yr Amgylchedd Hanesyddol a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) (gweler Archaeoleg, uchod) gyflwyno newidiadau sylweddol i sut mae ardaloedd ar y Gofrestr o Dirweddau Hanesyddol yn cael eu gwarchod a'u rheoli.
- 2.61 Nid yw polisïau CDU presennol yn caniatáu datblygiad a fyddai'n niweidio cymeriad y Tirweddau Hanesyddol; disgwylir i'r CDLI sy'n cael ei ddatblygu fabwysiadu polisïau tebyg.

Tueddiadau Presennol ac yn y Dyfodol

- 2.62 Amlinellir gwendidau, bygythiadau a chyfleoedd presennol – a chanllawiau rheoli - yn yr ACT (gweler Tirwedd uchod). Mae canllawiau rheoli'n pwysleisio'r angen i barhau i ddiogelu a rheoli tir comin a chynnal nodweddion ffin traddodiadol megis gwrychoedd a chloddiau.
- 2.63 Mae'r adroddiad ar gyfer Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol¹⁰ am effaith uniongyrchol y newid yn yr hinsawdd yn awgrymu mai tirweddau hanesyddol fydd yr ased hanesyddol a fydd yn dioddef fwyaf oherwydd y newid yn yr hinsawdd.

¹⁰Powell, J., Murphy, K., Ings, M., a Chambers, F.M. (2012) Ymagwedd strategol at asesu a mynd i'r afael ag effaith bosib y newid yn yr hinsawdd ar amgylchedd hanesyddol Cymru, Adroddiad i Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol – Is-grŵp Newid yn yr Hinsawdd. CCRI: Caerloyw
<http://www.ccri.ac.uk/cadwrepor/>

Monitro a Dangosyddion Posib

2.64

- Cyflwr Tirweddau Hanesyddol

Thema: Rhinwedd Arbennig Ddiwylliannol: Parciau a Gerddi Hanesyddol

- 2.65 Mae Cofrestr Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Cadw yn cynnwys y parciau a'r gerddi hynny yr ystyrir eu bod o bwysigrwydd cenedlaethol.

Statws Rhinwedd Arbennig

- 2.66 Mae'r AoHNE'n cynnwys pum safle ar y Gofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Arbennig:
- Castell Clun
 - Fairy Hill
 - Maenor Cil-frwch
 - Castell Pen-rhys
 - Stouthall

Ysgogwyr Newid

- 2.67 Mae cynnwys ar y gofrestr yn ceisio osgoi difrod i nodweddion arwyddocaol y safleoedd, megis cynllun hanesyddol, adeiledd, nodweddion adeiledig ac elfennau a blannwyd. Nid cadw popeth fel y mae yw'r bwriad; yn wir, mewn llawer o achosion mae datblygu'n ddiniwed ac yn llesol. Fodd bynnag, mae'n bwysig peidio â gadael i ddatblygiad ansensitif niweidio cymeriad hanesyddol a gweledol parciau a gerddi hanesyddol.
- 2.68 Mae agwedd sympathetig gan berchnogion a rheolwyr tir at reoli'r parciau a'r gerddi hyn yn allweddol i'w cadw a'u cynnal.
- 2.69 Mae Strategaeth yr Amgylchedd Hanesyddol (ail argraffiad, 2013) yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. Bydd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn effeithio ar reoli asedau treftadaeth yng Nghymru.
- 2.70 Nid yw polisïau CDU cyfredol yn caniatáu datblygu a fyddai'n amharu ar gymeriad y parciau neu'r gerddi hanesyddol neu'n effeithio ar eu 'lleoliadau hanfodol'. Disgwylir i'r CDLI sy'n cael ei ddatblygu fabwysiadu polisïau tebyg.

Tueddiadau Presennol ac yn y Dyfodol

- 2.71 Ni cheir gwybodaeth am gyflwr presennol y pum safle ar y gofrestr.

Monitro a Dangosyddion

- 2.72
- Cyflwr Parciau a Gerddi Hanesyddol – Cadw

Thema: Rhinwedd Arbennig Ddiwylliannol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth

- 2.73 Adeileddau a gydnabyddir yn swyddogol gan Cadw am fod o bwysigrwydd pensaernïol, hanesyddol neu ddiwylliannol arbennig yw adeiladau rhestredig. Mae adeiladau naill ai'n Radd I, II* neu II – gan ddibynnu ar eu pwysigrwydd – gyda Gradd I yr un pwysicaf. Mae adeiladau ac adeileddau blaenllaw – cestyll, eglwysi, tai mawr a thai hirion traddodiadol – yn ychwanegu nodweddion at dirwedd Gŵyr.
- 2.74 Dynodir ardaloedd cadwraeth gan awdurdodau cynllunio lleol am eu diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig. Mae ardaloedd cadwraeth yn diffinio ffiniau pentrefi ac yn cynnwys yr adeiladau a'r mannau ynddynt sy'n cyfrannu at gymeriad y pentref.

Statws Rhinwedd Arbennig

- 2.75 Mae 131 o adeiladau rhestredig (4 yn Radd I; 22 yn Radd II*; a 105 yn Radd II) a 17 ardal gadwraeth yn yr AoHNE.

Ysgogwyr Newid

- 2.76 Gall Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) (gweler Archaeoleg uchod) gyflwyno newidiadau sylweddol i sut caiff adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth eu diogelu a'u rheoli.
- 2.77 Nid yw polisïau CDU cyfredol yn caniatáu datblygiad a fyddai'n amharu ar gymeriad adeiladau hanesyddol ac ardaloedd cadwraeth. Lle mae cynigion ar gyfer gwella asedau hanesyddol (gan gynnwys adeiladau rhestredig), dylid ymgynghori â Cadw; Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ac YAMG.
- 2.78 Mae DASA yn paratoi strategaeth i ymdrin ag adeiladau rhestredig sydd 'mewn perygl' ar draws Dinas a Sir Abertawe; mae hyn wedi nodi wyth adeilad rhestredig yng Ngŵyr yr ystyrir eu bod mewn perygl. Mae DASA yn ystyried defnyddio pwerau statudol ynghyd â chyllid grant posib i ddechrau mynd i'r afael â'r broblem hirbarhaol hon.
- 2.79 Cafodd llawer o'r ardaloedd cadwraeth ar benrhyn Gŵyr eu dynodi yn y 1970au a'r 1980au; nid oes Arfarniad Cymeriad na Chynllun Rheoli gan yr un ohonynt. Nid yw Canllaw Dylunio'r AoHNE yn rhoi arweiniad ar gyfer datblygiadau adeiledig yn yr AoHNE. Mae'r canllaw yn cynnwys 'Datganiadau Anheddiad' unigol sy'n amlygu nodweddion allweddol ar gyfer pob anheddiad, gyda disgrifiad o ddeunyddiau cyffredin a manylion.
- 2.80 Mae DASA yn adolygu ei ardaloedd cadwraeth, ond gyda 31 ar draws ardal yr awdurdod, nid yw ardaloedd cadwraeth ar benrhyn Gŵyr yn debygol o gael eu hadolygu am nifer o flynyddoedd. Yn y cyfamser mae'n rhaid gwneud penderfyniadau rheoli datblygu fesul achos trwy ddefnyddio'r prawf 'cadw neu wella'. Mae hyn yn tynnu ar arbenigedd y Tîm Dylunio a Chadwraeth.

- 2.81 Mae Strategaeth yr Amgylchedd Hanesyddol (2012) yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. Bydd rhoi Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) ar waith yn effeithio ar reoli asedau treftadaeth yng Nghymru.

Tueddiadau Presennol ac yn y Dyfodol

- 2.82 Cynhaliwyd arolwg o adeiladau rhestredig 'mewn perygl' yn ystod 2007-08. O 515 o adeiladau rhestredig a archwiliwyd yn ardal ehangach Abertawe, aseswyd bod 7.7% 'mewn perygl'. Yn ôl adolygiad anffurfiol o adeiladau rhestredig mewn perygl yn 2012, mae'r duedd hon yn gwaethygu gydag oddeutu 8.9% o adeiladau rhestredig bellach yn cael eu hystyried i fod mewn perygl.
- 2.83 Y prif reswm am gyflwr bregus adeiladau rhestredig yng Ngŵyr yw oherwydd bod llawer ohonynt yn adeileddau nad oes ganddynt modd i greu incwm ac mae hyn yn arwain at esgeulustod cyffredinol a diffyg gwaith cynnal a chadw.
- 2.84 Mae tystiolaeth storiol a hanes llwyth achos Ardal Gadwraeth diweddar yn awgrymu tuedd ddirywiol raddol yn eu cyflwr. Fodd bynnag, heb Arfarniadau Cymeriad neu Gynlluniau Rheoli gwrthrychol ac ategol, nid oes unrhyw dystiolaeth wrthrychol i nodi tueddiadau yng nghyflwr ardaloedd cadwraeth ar draws yr AoHNE.
- 2.85 Mae'r adroddiad diweddar ar gyfer Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol¹¹ am effaith uniongyrchol newid yn yr hinsawdd yn amlygu'r problemau posib yn y dyfodol, gan gynnwys:
- pla o bryfed a thyfiant ffyngol mewn tywydd cynhesach, lleithach;
 - problemau adeileddol, er enghraifft, a achosir gan bridd yn crebachu mewn hafau poethach, sychach;
 - dirywiad mewn gwaith carreg a achosir gan rewi/doddi amlach;
 - difrod o ganlyniad i dywydd eithafol; a
 - symudiad thermol deunyddiau megis llechen, plwm, pren a pheintwaith

Monitro a Dangosyddion Posib

- 2.86
- Cyflwr adeiladau rhestredig
 - Cyflwr ardaloedd cadwraeth

¹¹Powell, J., Murphy, K., Ings, M., a Chambers, F.M. (2012) Dull strategol o asesu ac ymdrin ag effaith bosibl newid yn yr hinsawdd ar yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, Adroddiad i Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol – Is-grŵp Newid yn yr Hinsawdd. CCRI: Caerloyw <http://www.ccri.ac.uk/cadwrepor/>

Thema: Rhinwedd Amgylcheddol Arbennig: Ansawdd Aer

- 2.87 Mae ansawdd aer yn bwysig i'r canfyddiad synhwyrdd o'r AoHNE a lles corfforol ei thrigolion, ei hymwelwyr, ei phlanhigion a'i hanifeiliaid.

Statws Rhinwedd Arbennig

- 2.88 Mae DASA yn adolygu, yn monitro ac yn adrodd ynglŷn ag ansawdd aer ar draws Abertawe i gydymffurfio â Deddf yr Amgylchedd 1995 a pholisïau a chanllawiau technegol Rheoli Ansawdd Aer Lleol (RhAALI) eraill.
- 2.89 Tueddir i fonitro ansawdd aer mewn ardaloedd lle mae ffynonellau llygredd hysbys yn debygol o arwain at lefelau llygryddion aer allweddol sy'n uwch na'r trothwy rhagnodedig. Nid yw ffynonellau llygredd, megis ardaloedd adeiledig, safleoedd diwydiannol a phrif ffyrdd â thraffig trwm, yn effeithio'n ddifrifol ar AoHNE Gŵyr.
- 2.90 Felly ceir ychydig bach o ddata empirig am ansawdd aer. Yn ôl arolygon nitrogen deuocsid ymyl ffordd a gynhaliwyd ym 1985-6 ac ym 1996-7, roedd y lefelau ymhell o fewn y cyfyngiadau derbyniol uchaf.

Ysgogwyr Newid, Tueddiadau Presennol ac yn y Dyfodol

- 2.91 Noda'r adroddiad RhAALI diweddaraf nad oes unrhyw faterion rheoli ansawdd aer lleol yn effeithio ar yr AoHNE. Mae ansawdd aer yn yr AoHNE yn debygol o aros yn dda yn y dyfodol hyd y gellir rhagweld.

Monitro a Dangosyddion Posib

- 2.92 Bydd DASA yn parhau i adolygu, monitro ac adrodd ynglŷn ag ansawdd aer ar draws y sir yn unol â rheoliadau, strategaethau a pholisïau RhAALI:
<http://www.abertawe.gov.uk/article/2837/Ansawdd-aer>

Thema: Rhinwedd Amgylcheddol Arbennig: Ansawdd Dŵr

2.93 Mae ansawdd dŵr yn bwysig ar gyfer traethau lle mae pobl yn ymdrochi a chadwraeth dŵr. Mae ansawdd aer da yn cynnal gweithgareddau hamdden tawel ac amrywiaeth o fywyd gwylt ar y tir ac yn y môr. Mae traethau tywodlyd a dŵr glân yn nodweddion pwysig o'r adnodd hamdden ac i'r diwydiant twristiaeth.

Statws Rhinwedd Arbennig

2.94 Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r awdurdod cymwys sy'n gyfrifol am ansawdd dŵr a materion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yng Nghymru. Mae'r AoHNE o fewn ardal Cynllun Rheoli Basnau Afonydd Gorllewin (CRhBA) Cymru. Mae'r CRhBA yn nodi holl gyrff dŵr mewndirol ac arfordirol pwysig yr AoHNE ac yn pennu amcanion ansawdd amgylcheddol ar gyfer y ddau fath.

2.95 Mae'r CRhBA yn nodi holl gyrff dŵr mewndirol ac arfordirol mwy sylweddol yr AoHNE ac yn pennu amcanion ansawdd amgylcheddol ar gyfer y ddau fath. Mae'r CRhBA yn dosbarthu gyrff dŵr yn y categorïau hyn:

- Afonydd
- Llynnoedd
- Rhyngbarthol (Morydol)
- Arfordirol; a
- Dŵr daear.

2.96 Noda'r tabl canlynol statws presennol pob corff dŵr yn yr AoHNE neu'r cyffiniau.

Dosbarthiad y Corff Dŵr	Nifer y math yn yr AoHNE	Statws Presennol	Amcan Statws Ecolol Da i'w gyflawni erbyn:
Afonydd	14	2 Gwael 6 Cymedrol 6 Da	7 erbyn 2015 7 erbyn 2027
Llynnoedd	0	--	--
Rhyngbarthol	1	Cymedrol	2027
Arfordirol	3	2 Cymedrol 1 Da	1 erbyn 2015 2 erbyn 2027
Dŵr daear	2	1 Da 1 Cymedrol	1 erbyn 2015 1 erbyn 2027

2.97 Ceir hefyd amrywiaeth o lynnoedd, pyllau a dyfrgyrsiau llai na nodir yn y CRhBA – megis Pwll Llydan a Chors Oxwich – sy'n elfennau pwysig o dirwedd yr AoHNE ond sydd y tu allan i gwmpas y CRhBA. Nid oes unrhyw wybodaeth gryno am faint a chyflwr y nodweddion llai hyn.

2.98 Mae dyfroedd ymdrochi'n destun gweithdrefn monitro ansawdd dŵr benodol ar wahân. Mae pob un o saith traeth AoHNE Gŵyr sydd wedi cael eu profi

wedi bodloni'r Safon Dŵr Ymdrochi Uwch bob blwyddyn am y cyfnod 2010-2012.

Tueddiadau Presennol ac yn y Dyfodol

- 2.99 Dylanwedir ar ddŵr ymdrochi gan weithredoedd o'r tu allan i'r AoHNE – yn benodol ollyngiadau o'r ardaloedd trefol gerllaw (Abertawe a Llanelli). Dros y blynyddoedd diweddar, cafwyd gwelliannau sylweddol i ansawdd, amlder a rheoleiddio gollyngiadau wrth eu ffynonellau i ddyfroedd ymdrochi. Efallai bydd angen mwy o welliannau er mwyn bodloni gofynion y Gyfarwydddeb Dŵr Ymdrochi. Mae hyn yn debygol o gynnwys camau a mentrau i fynd i'r afael â ffynonellau llygredd mwy gwasgaredig/cronnus e.e. o lygredd gwasgaredig a thanciau carthion amaethyddol. Mae gwaith yn parhau i ddeall ac ymdrin â'r materion hyn.
- 2.100 Ni cheir llawer o wybodaeth am faterion rheoli adnoddau dŵr yng Ngŵyr. Mae'r creigwely calchfaen ar benrhyn Gŵyr yn dal dŵr ac fe'i cydnabyddir fel Prif Ddyfrhaen. Mae dŵr daear yn adnodd pwysig ac yn cynnal llifoedd dŵr arwyneb ac ecosystemau gwlyptir. Gallai'r galw am ddŵr gan breswylwyr/ymwelwyr a'r newid yn yr hinsawdd effeithio ar adnoddau dŵr yr AoHNE yn y dyfodol. Yn aml, pan fo cynlluniau ar gyfer mwy o ddatblygu y tu allan i'r ardaloedd a wasanaethir gan garthffosydd yng Ngŵyr, ceir pwysau i ganiatáu cynyddu nifer y tanciau carthion a systemau trin carthion mewn unedau pecyn. Mewn ardaloedd calchfaen mae hyn yn creu perygl sylweddol o lygredd i ddŵr daear.

Monitro a Dangosyddion Posib

2.101

- Dŵr ymdrochi - ansawdd dyfroedd ymdrochi dynodedig
- Cydymffurfio â'r GFD (gan gynnwys cydymffurfio o ran dyfroedd pysgod cregyn)
- Statws ecolegol da cyrff dŵr, trwy'r CRhBA.
- Monitro ansawdd dŵr ymdrochi yn flynyddol.

Thema: Rhinwedd Amgylcheddol Arbennig: Ansawdd Pridd

2.102 Mae gan bridd ddylanwad cryf ar ein hecosystem gyfan, gan ei fod yn sylfaen i lawer o wasanaethau a swyddogaethau'r ecosystem a gydnabyddir. Mae pridd yn adnodd bregus y mae angen ei ddeall a'i ddiogelu. Mae ansawdd pridd yn effeithio ar ddefnydd tir ac mae AoHNE Gŵyr yn cynnwys cryn dipyn o dir amaeth o ansawdd gwell.

Statws Rhinwedd Arbennig

2.103 Yn y cynllun ar gyfer 2006, roedd gwybodaeth a data am ansawdd pridd yr AoHNE yn gyfyngedig i'r Dosbarthiad Tir Amaeth (DTA, 1977), a ddosbarthodd dir amaeth yn raddau o 1 i 5. Ceir pob un o'r graddau hyn yn yr AoHNE. Nododd cynllun 2006 ffactorau cyffredinol sy'n effeithio ar gyflwr y pridd.

2.104 Mae mwy o wybodaeth bellach ar gael am bridd gan y Sefydliad Adnoddau Pridd Cenedlaethol (NSRI) - sy'n gyfrifol am gadw a lledaenu gwybodaeth am bridd yng Nghymru a Lloegr. Wedi'i ddatblygu gan Brifysgol Cranfield a'i noddi gan Defra, mae syllwr priddlun yr NSRI¹² yn rhoi disgrifiad crynodeb o'r pridd mewn lleoliadau penodol ar draws Cymru a Lloegr. Mae'r map yn dangos y priddluniau a'r disgrifiadau pridd ar gyfer y lleoliad penodol, yn ogystal â nifer o nodweddion pridd mwy diddorol, gan gynnwys gwybodaeth gryno am wead y pridd, ei statws draenio, ffrwythlondeb y pridd a'r cynefinoedd a'r gorchudd tir sy'n gysylltiedig ag ef yn gyffredinol.

Ysgogwyr Newid

2.105 Arferion amaethyddol a rheoli tir eraill sydd â'r dylanwad mwyaf ar ansawdd pridd yr AoHNE. Sbardunir yr arferion hyn yn rhannol gan brisiau marchnad da byw a chynnyrch, polisïau amaethyddol a chymorthdaliadau.

2.106 Mae'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr a'r camau gweithredu yn y Cynllun Rheoli Basnau Afon (gweler Ansawdd Dŵr uchod) yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â llygredd gwasgaredig i fân ddyfrgyrsiau o ganlyniad i arferion amaethyddol – yn bennaf halogi sy'n gysylltiedig â'r cynnydd yn lefel y nitradau o ddŵr ffo amaethyddol.

2.107 Mae gan y CDU bolisïau i ddiogelu'r tir amaethyddol 'gorau a mwyaf amlbwrpas' (DTA, graddau 1-3a); Disgwylir i'r CDLI sy'n cael ei ddatblygu gynnwys polisïau tebyg.

Tueddiadau Presennol ac yn y Dyfodol

2.108 Mae'r peryglon a'r materion rheoli tir a diogelu dŵr cyffredinol ar gyfer y mathau o bridd a geir yng Ngŵyr yn cynnwys:

- Cynnydd o ran maetholion a silt mewn nentydd oherwydd erydiad pridd

¹² <https://www.landis.org.uk/soilscapes/>

- Nitradau'n halogi dŵr daear
- Pridd yn erydu ar hyd llwybrau cerdded neu o ardaloedd wedi'u llosgi
- Dŵr ffo neu erydiad cynyddol oherwydd gripio neu orbori
- Llif dros y tir (o fiswail organig, gwrteithiau, pathogenau neu fân waddod mewn daliant/toddiant) o gaeau wedi'u cywasgu neu eu sathru

2.109 Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth uniongyrchol o unrhyw broblemau neu dueddiadau sylweddol o ran ansawdd pridd yr AoHNE.

2.110 Mae'r prosiect Dim Gwastraff yn ein Tirwedd (gweler 2.46, Archaeoleg) hefyd yn berthnasol i ansawdd pridd yr AoHNE.

2.111 Mae cynllun 2006 yn nodi problem bosib gyda chynnydd o ran codi porfeydd er mwyn cael tyweirch – a allai beri i'r pridd erydu a cholli ffurfiant dros amser. Fodd bynnag, ni cheir unrhyw wybodaeth i asesu tueddiadau neu effaith bosib hyn ar ansawdd pridd yr AoHNE.

Monitro a Dangosyddion Posib

2.112 Ni nodwyd unrhyw ofynion monitro.

Thema: Rhinwedd Amgylcheddol Arbennig: Llonyddwch

2.113 Mae Gŵyr yn un o'r ychydig ardaloedd sydd ar ôl yn ne Cymru nad ydynt yn dioddef o ymyriad sŵn a nodweddion diolwg. Ni cheir 'tywyn awyr' o ganlyniad i lygredd golau chwaith.

Statws Rhinwedd Arbennig

2.114 Yn arolwg a gynhaliwyd ym 1997 gan ASH Consulting Group ar gyfer Cyngor Cefn Gwlad Cymru,¹³ (CCW) nodwyd bod yr AoHNE yn ardal lle mae "absenoldeb aflonyddwch sylweddol yn ystod y dydd fel arfer". Nododd yr arolwg hefyd absenoldeb y tywyn awyr a achosir gan lygredd golau fel dangosydd llonyddwch.

2.115 Yn 2009, comisiynodd CCGC ymgynghorwyr defnydd tir¹⁴ (YDT) i ailasesu llonyddwch yng Nghymru trwy ddiweddaru'r ymchwiliad o 1997 a chymharu'r newidiadau mewn llonyddwch o fewn y cyfnod 12 mlynedd. Nid oedd y data ar gyfer Dinas a Sir Abertawe yn gyflawn yn yr arolwg ym 1997, ond – hyd yn oed o ystyried hyn – nododd yr arolwg yn 2009 ostyngiad bach iawn ym maint yr ardaloedd llonydd yn ardal yr awdurdod lleol. Nodir y canlyniadau ar gyfer Abertawe yn y tabl isod.

Parth	1997		2009	
	Ardal (ha)	%	Ardal (ha)	%
Llonydd	126.29	29.98	124.52	29.56
Parth B - Ymyriad sylweddol ar gefn gwlad gan draffig a ffynonellau aflonyddwch eraill	187.54	44.52	221.70	52.64
Parth C - Rhywfaint o aflonyddwch ar gefn gwlad gan draffig ysgafn	70.17	16.66	74.97	17.80
Aflonyddwch ar bob un (Parth B ac C)	257.70	61.18	296.68	70.44
Dim data	37.20	8.83	Dd/b	Dd/b

Ysgogwyr Newid

2.116 Cafwyd cynnydd da o ran camau gweithredu ac amcanion cynllun 2006 – mae Arweiniad Cynllun Goleuo ar gyfer AoHNE Gŵyr¹⁵ a Chanllaw Dylunio

¹³ ASH Consulting Group (1997) *Ardaloedd Llonydd Cymru – Adroddiad i Gyngor Cefn Gwlad Cymru*.

¹⁴ Ymgynghorwyr Defnydd Tir (2009). *Map o Ardaloedd Llonydd Cymru, 2009*. Lluniwyd gan ymgynghorwyr defnydd tir ar gyfer Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

¹⁵ Dinas a Sir Abertawe (2010). *Arweiniad Cynllun Goleuo ar gyfer AoHNE Gŵyr*.

<http://www.abertawe.gov.uk/index.cfm?articleid=41674>

AoHNE Gŵyr¹⁶ wedi cael eu cyhoeddi fel Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) mewn ymateb i'r mater.

- 2.117 Mae pwysau datblygu'n parhau i effeithio ar yr AoHNE, gan gynnwys datblygiadau/cynlluniau goleuo o'r tu allan i'r AoHNE sy'n effeithio ar awyr dywyll yr AoHNE e.e. o ardaloedd trefol Abertawe a Llanelli. Ceir pryderon hefyd y gallai prosiectau goleuo bach ar safleoedd unigol presennol yn yr AoHNE gael effaith gronnus ar yr awyr dywyll.
- 2.118 Mae lefelau uwch o sŵn ger priffyrdd, er enghraifft, a sŵn sydyn achlysurol o awyrennau milwrol ac offer dŵr megis jet-sgiau a chychod gwib, yn parhau i aflonyddu ar lonyddwch yr AoHNE.
- 2.119 Mae mudiad awyr dywyll rhyngwladol cynyddol sy'n tynnu mwy o sylw at bwysigrwydd awyr dywyll e.e. Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi cael ei ddatgan yn Warchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol.
- 2.120 Mae Cynllun Gweithredu ynghylch Sŵn i Gymru¹⁷ yn cydnabod y bydd '...mantais o gael dewis o amgylcheddau llonydd, yn amrywio o lecyn gwyrdd trefol y gellir dianc iddo am gyfnod byr...i leoedd lle y ceir cysylltiad mwy heriol â byd natur mewn ardal fwy diarffordd.' Mae'r cynllun gweithredu'n argymhell i CNC 'ystyried a oes achos dros lunio mapiau pellach o fannau llonydd gwledig a'r dull sydd i'w ddefnyddio ar gyfer unrhyw fapiau o'r fath'.

Tueddiadau Presennol ac yn y Dyfodol

- 2.121 Nid yw'r arolygon o lonyddwch yng Nghymru gyfan yn nodi unrhyw newid sylweddol ym maint ardaloedd llonydd yr AoHNE. Fodd bynnag, heb gynnal arolwg penodol ynghylch llonyddwch neu awyr dywyll, nid yw'n bosib dod i unrhyw gasgliad pendant ynglŷn â thuedd sylfaenol.
- 2.122 Gyda threigl amser, mae pwysau datblygu'n debygol o achosi dirywiad graddol mewn llonyddwch ac awyr dywyll y nos – boed hynny o fewn yr AoHNE ac yn y cyffiniau.

Monitro a Dangosyddion Posib

- 2.123 Llonyddwch – Dylai arolwg lleol (nid yw'r fethodoleg fanwl wedi'i phennu eto) ganiatáu am natur benodol Gŵyr ond hefyd bod yn gyson ag arolygon cenedlaethol/eraill. Dylid gallu ailgynnal yr arolwg bob 5 mlynedd a dylai integreiddio'n dda ag unrhyw fapiau Cymru gyfan arfaethedig yn y dyfodol.
- 2.124 Asesiadau awyr dywyll – Mae'r Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol (IDA) yn darparu arweiniad ac yn gallu rhoi cyngor ar y gofynion – fel arfer, defnyddio

¹⁶Canllaw Dylunio AoHNE Gŵyr Dinas a Sir Abertawe (2011).
<http://www.abertawe.gov.uk/index.cfm?articleid=42737>

¹⁷Llywodraeth Cymru (2013). Cynllun Gweithredu ynghylch Sŵn i Gymru 2013-2018.
<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/noiseandnuisance/environmentalnoise/noisemonitoringmapping/noise-action-plan/?lang=cy>

darlleniadau mesurydd golau, ffotograffiaeth; Asesiadau ansoddol graddfa Bortle¹⁸.

¹⁸ <http://www.darksky.org/night-sky-conservation/269>

Thema: Rhinwedd Arbennig Hamdden: Hawliau Tramwy Cyhoeddus

2.125 Mae mynediad cyhoeddus sylweddol i gefn gwlad ac arfordir yr AoHNE ac mae'r rhwydwaith llwybrau'n adnodd pwysig i ymwelwyr a'r diwydiant twristiaeth. Mae llawer o'r rhwydwaith llwybrau'n cynnwys lonydd ffiniedig a llwybrau hanesyddol ac mae rhai'n nodweddion pwysig o'r dirwedd.

Statws Rhinwedd Arbennig

2.126 Mae Tîm Mynediad i Gefn Gwlad CCGC yn monitro cyflwr y rhwydwaith hawliau tramwy ar draws y sir yn flynyddol. Mae'r monitro'n cynnwys cymryd samplau ar hap o oddeutu 10% o'r rhwydwaith i asesu pa lwybrau sy'n 'hawdd eu defnyddio'. Gall dadansoddiad o'r canlyniadau dros nifer o flynyddoedd ddangos tuedd gwellhaol/ddirywiol yng nghyflwr y rhwydwaith.

2.127 Ceir crynodeb o'r canlyniadau monitro ar gyfer rhwydwaith llwybrau'r AoHNE yn y tabl isod:

Blwyddyn	Hyd y rhwydwaith o fewn yr AoHNE	Canran y llwybrau sydd mewn cyflwr hygyrch ac y gellir eu defnyddio	Yn seiliedig ar hyd sampl o arolwg (a chanran rhwydwaith yr AoHNE)
2008	402.0 km	63.2 %	31.8 km (7.90%)
2009	402.0 km	51.6 %	42.8 km (10.65%)
2010	402.0 km	62.8 %	35.7 km (8.88%)
2011	412.1 km	65.8 %	31.1 km (7.56%)
2012	414.9 km	80.2 %	48.7 km (11.73%)
2013	414.9 km	69.9 %	45.0 km (10.84%)

2.128 Agorwyd Llwybr Arfordir Cymru'n swyddogol ym mis Mai 2012 ac mae'n adnodd pwysig ac yn ased twristiaeth cydnabyddedig erbyn hyn. Cafwyd cyllid cyfalaf i ddatblygu llwybr yr arfordir a'r rhwydwaith hawliau tramwy yn yr ardal arfordirol. Dylai cydnabyddiaeth bod y rhan o Llwybr Arfordir Cymru sydd yn yr AoHNE yn ased twristiaeth allweddol gynorthwyo wrth gynnal proffil yr AoHNE o ran buddsoddiad a rheoli.

2.129 Mae Llwybr Gŵyr 35 milltir o hyd yn croesi'r AoHNE ac ardal Mawr yn hen Arglwyddiaeth Gŵyr. Ceir hefyd nifer bach o lwybrau mynediad goddefol a ddarperir gan dirfeddianwyr; Gall y rhain fod yn ychwanegiadau pwysig at y rhwydwaith hawliau tramwy.

Ysgogwyr Newid

2.130 Mae Fforwm Mynediad Lleol Abertawe¹⁹ yn cynghori'r awdurdod lleol ar wella mynediad cyhoeddus i gefn gwlad at ddibenion difyrwrch awyr agored a mwynhau'r ardal. Caiff gwelliannau i fynediad cefn gwlad – ar gyfer pob

¹⁹ <http://www.swansea.gov.uk/article/6194/Local-access-forum>

defnyddiwr – eu cyflawni trwy Gynllun Mynediad i Gefn Gwlad Dinas a Sir Abertawe (2007-17). Mae camau gweithredu allweddol y cynllun yn cynnwys:

- Rhaglen Datblygu Llwybr Arfordir Cymru
- Cynyddu'r llwybrau a hyrwyddir i gerddwyr a defnyddwyr eraill
- Cynyddu cysylltadwyedd y rhwydwaith llwybrau
- Y Rhaglen Gwella Llwybrau Gymunedol
- Gwella'r rhwydwaith llwybrau fel bod 75% ohono'n 'hawdd ei ddefnyddio'
- Cyhoeddi map diffiniol newydd

- 2.131 Targed cyffredinol y Cynllun Mynediad i Gefn Gwlad yw sicrhau bod 75% o'r rhwydwaith llwybrau – ar draws y sir gyfan – yn hawdd ei ddefnyddio. Mae gan Gynllun Rheoli'r AoHNE darged uwch penodol o sicrhau bod 95% o'r rhwydwaith llwybrau yn yr AoHNE yn 'hawdd ei ddefnyddio'.
- 2.132 Mae angen adnoddau parhaus i gynnal a chadw'r rhwydwaith llwybrau oherwydd bydd hyd yn oed llwybrau sydd wedi'u gwella yn dirywio gyda threigl amser e.e. o ganlyniad i lefel a natur y defnydd, erydu, llystyfiant a rhwystrau.
- 2.133 Gallai fod mwy o adnoddau ar gael i wneud gwelliannau i lwybr yr arfordir, ond darperir adnoddau cyfyngedig parhaus ar gyfer cynnal a chadw rhwydwaith llwybrau'r AoHNE i sicrhau ei fod mor agored a hygyrch â phosib.
- 2.134 Yn y cyd-destun ehangach, gall defnydd hamdden yr AoHNE eisoes fod yn newid. Mae mwy o ymwelwyr a mwy o bobl yn cymryd rhan mewn amrywiaeth ehangach o weithgareddau yn yr AoHNE e.e. cerdded, gwyllo bywyd gwyllt, beicio, syrffio, bordhwyllo a barcuta. Heb ryw lefel o gyd-ddealltwriaeth rhwng y defnyddwyr gwahanol, gallai rhai gweithgareddau arwain at wrthdrawiadau lleol e.e. pysgota a chiaiocio.
- 2.135 Yn ôl Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013,²⁰ mae'n ofyniad cyfreithiol i awdurdodau lleol fapio a chynllunio llwybrau addas ar gyfer teithio lesol, ac adeiladu a gwella'u hisadeiledd ar gyfer cerdded a beicio bob blwyddyn. Mae'n creu dyletswyddau newydd ar gyfer awdurdodau priffyrdd er mwyn ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr a gwneud darpariaeth well iddynt. Mae hefyd yn ofyniad i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol hyrwyddo cerdded a beicio fel dull o gludiant.
- 2.136 Bydd darpariaethau'r ddeddf sy'n ei gwneud yn ofynnol i lunio a chyhoeddi mapiau a gwneud gwelliannau blynyddol i'r isadeiledd yn berthnasol i ardaloedd penodol yn unig lle mae potensial i deithio lesol fod yn ddull o gludiant sy'n debygol o gael ei ddefnyddio'n helaeth. Mae Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ynghylch lleoliad yr ardaloedd arfaethedig hyn; yn ogystal â phrif ardaloedd dinesig Abertawe, mae rhai o aneddiadau mwy sylweddol yr AoHNE, e.e. Southgate a Murton, hefyd wedi cael eu cynnig.

²⁰ <http://wales.gov.uk/topics/transport/integrated/walkingcycling/activetravelact/?lang=cy>

2.137 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi adolygiad o ddeddfwriaeth ac arweiniad cyfredol sy'n ymwneud â mynediad a hamdden awyr agored²¹. Y nod yw sicrhau mynediad gwell i'r awyr agored at ddibenion hamdden a symleiddio'r fframwaith rheoleiddio presennol yn ogystal â rhoi eglurder a sicrwydd ynglŷn ag i ba le mae pobl yn gallu mynd a'r hyn maent yn gallu ei wneud yno.

Tueddiadau Presennol ac yn y Dyfodol

2.138 Targed cyffredinol y Cynllun Mynediad i Gefn Gwlad yw sicrhau bod 75% o'r rhwydwaith llwybrau – ar draws y sir gyfan – yn hawdd ei ddefnyddio. Mae gan Gynllun Rheoli'r AoHNE darged uwch penodol o sicrhau bod 95% o'r rhwydwaith llwybrau yn yr AoHNE yn 'hawdd ei ddefnyddio'.

Monitro Posib a Dangosyddion

2.139

- Rhaglen flynyddol i fonitro ac adrodd am hawliau tramwy presennol.

21

<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/countrysidecoastalaccess/review-of-access-and-outdoor-recreation-legislation/?lang=cy>

Thema: Rhinwedd Arbennig Hamdden: Tir Mynediad

2.140 Mae cryn dipyn o'r AoHNE yn dir â rhywfaint o hawl mynediad cyhoeddus neu ganiatâd i gael mynediad iddo ar droed, gan gynnwys tir comin; Meysydd pentrefi, tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a thir ym mherchnogaeth y cyhoedd.

Statws Rhinwedd Arbennig

2.141 Mae hawliau mynediad cyhoeddus ar droed yn berthnasol i:

- Dir comin
- Tir wedi'i fapio fel tir agored o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Deddf CRow 2000) a
- Thir â mynediad dynodedig, e.e. ystâd goedwig gyhoeddus CNC.

2.142 Gellir rhoi gwaharddiadau a chyfyngiadau ar waith o ran tir mynediad pan fo angen cyfyngu ar fynediad cyhoeddus ar gyfer gweithrediadau rheoli, e.e. cymynu coed.

2.143 Mae gan dir arall lefelau uwch o hawliau mynediad cyhoeddus ac mae'r AoHNE yn cynnwys ardaloedd lle mae'r tirlfeddiannwr wedi cytuno i ganiatáu mynediad cyhoeddus; Mae hyn yn cynnwys cryn dipyn o dir sy'n eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

2.144 Cyfanswm cyffredinol y mathau hyn o dir yw 3145ha - 16.7% o'r AoHNE.

Ysgogwyr Newid

2.145 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cwblhau adolygiad o'r mapiau o dir â mynediad a gyhoeddwyd o dan Ddeddf CRow 2000.

2.146 Mae cryn dipyn o dir â mynediad yn eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol neu'n cael ei reoli ganddi, neu mae'n eiddo cyhoeddus sy'n cael ei reoli at ddibenion hamdden a chadwraeth natur.

2.147 Hefyd mae cryn dipyn o dir â mynediad yn dir comin; Mae hygyrchedd a gwerth y tir hwn fel adnodd hamdden yn ddibynnol ar reolaeth tir comin briodol – yn benodol llosgi a reolir a lefelau pori priodol.

Tueddiadau Presennol ac yn y Dyfodol

2.148 Disgwylir cynnal swm uchel a dosbarthiad helaeth y tir sydd ar gael ar gyfer mynediad cyhoeddus. Gallai problemau lleol neu dros dro godi lle mae'n anodd integreiddio mynediad cyhoeddus a gofynion rheoli tir, e.e. ar dir comin neu mewn coedwigoedd cyhoeddus lle mae angen cymynu coed.

Monitro a Dangosyddion Posib

2.149

- Maint a hygyrchedd tir â mynediad.

Thema: Rhinwedd Arbennig Hamdden: Traethau

- 2.150 Mae traethau tywodlyd yn bwysig ar gyfer hamdden, iechyd a lles ac maent yn nodwedd dirwedd proffil uchel o'r AoHNE sy'n hybu'r ardal o ran twristiaeth.

Statws Rhinwedd Arbennig

- 2.151 Mae traethau tywodlyd Gŵyr yn un o'r prif atyniadau i ymwelwyr â'r ardal, ac felly maent yn adnodd naturiol pwysig sy'n cynnal y diwydiant twristiaeth. Ceir 16 o brif draethau, gyda nifer o gildraethau a mornentydd llai. Mae traethau ar draws Gŵyr yn ennill statws y Faner Las neu Arfordir Gwyrdd yn gyson. Mae gan draeth Rhosili, sy'n eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, broffil cenedlaethol a rhyngwladol cryf ymhlith ymwelwyr.

Ysgogwyr Newid

- 2.152 Mae Cynllun Rheoli Cyrchfannau Bae Abertawe²² yn cydnabod pwysigrwydd traethau Gŵyr i dwristiaeth yn yr ardal. Bydd angen parhaus am reoli traethau cydlynol er mwyn cynnal eu safon uchel.
- 2.153 Mae'r Cynllun Rheoli Traethlin yn rhoi asesiad helaeth o'r peryglon sy'n gysylltiedig ag erydiad arfordirol a llifogydd o amgylch arfordir de Cymru. Mae hefyd yn cyflwyno polisiau i helpu i reoli'r peryglon hyn i bobl a'r amgylchedd datblygedig, hanesyddol a naturiol mewn modd cynaliadwy. Mae'r cynllun presennol (CRhT2) yn nodi ymagweddau polisi at rannau rheolaeth arfordirol o gwmpas yr AoHNE.

Tueddiadau Presennol ac yn y Dyfodol

- 2.154 Mae safon ansawdd dŵr ymdrochi ar draethau Gŵyr wedi bod yn gyson uchel yn y gorffennol diweddar (gweler Ansawdd Dŵr) a disgwylir ei chynnal yn y dyfodol hyd y gellir rhagweld.
- 2.155 Oherwydd yr ansawdd dŵr a nifer/safon cyfleusterau'r traethau, mae traethau Gŵyr yn ennill statws y Faner Las yn rheolaidd; Mae pedwar traeth yng Ngŵyr (Bae Caswell, Bae Langland, Bae Bracelet a Phorth Einon) yn ennill statws y Faner Las yn gyson.
- 2.156 Mae nifer yr ymwelwyr ag ardal ehangach Bae Abertawe wedi cynyddu (4.2 miliwn o ymwelwyr yn 2011 o'i gymharu â 3.9 miliwn yn 2006), gyda bron pob un o bum ymwelydd yn dod oherwydd yr arfordir/traethau. Disgwylir i nifer yr ymwelwyr, y refeniw o dwristiaeth a nifer y swyddi sy'n ymwneud â thwristiaeth gynyddu; Bydd Cynllun Cyrchfannau Bae Abertawe sy'n cael ei ddatblygu yn ceisio rheoli datblygiad cynaliadwy'r tueddiadau hyn. Fodd bynnag, gall nifer cynyddol o ymwelwyr â thraethau Gŵyr achosi problemau

²² <http://www.abertawe.gov.uk/article/6421/Cynllun-Rheoli-Cyrchfannau>

amgylcheddol (megis erydu a difrod i gynefinoedd) yn ogystal â dirywiad i draethau a chyfleusterau.

2.157 Mynegwyd pryderon am golli tywod o draethau ar hyd arfordir y de – o bosib mewn cysylltiad â threillio ym Môr Hafren – yng nghynllun 2006. Mae astudiaethau²³ sy'n ategu'r adolygiad o'r Cynllun Rheoli Traethlin yn awgrymu bod lefelau traethau'n amrywio'n naturiol ar y rhan hon o'r arfordir heb lawer o dystiolaeth i gefnogi unrhyw duedd gyffredinol.

Monitro a Dangosyddion Posib

2.158

- Parhau i fonitro ansawdd dŵr ymdrochi i safonau'r UE.
- Ymgeisio a dyfarnu statws y Faner Las/Arfordir Gwyrdd yn flynyddol
- Goruchwylio a monitro proffil traethau trwy'r CRhT2
- Monitro/goruchwylio sbwriel ar y traethau (gan gynnwys sbwriel o'r môr).

²³Halcrow ar gyfer Grŵp Peiriannu Abertawe a Bae Caerfyrddin (2010). Adroddiad Deall Prosesau Gwaelodlin.

- 3.1 Mae'r bennod hon yn disgrifio gweithgareddau a phwysau'r AoHNE yn y cyd-destun ehangach, a sut gall y rhain newid dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae gweithgareddau a phwysau'n adlewyrchu agweddau cymdeithasol ac economaidd yr AoHNE. Mae egwyddor datblygu cynaliadwy'n cydnabod y gydberthynas a'r rhyng-ddibyniaeth rhwng y ddwy agwedd hyn ac amgylchedd yr AoHNE.
- 3.2 Disgrifir gweithgareddau a phwysau isod o dan y penawdau canlynol:
- Diwydiannau cynradd
 - Amaethyddiaeth
 - Coed a choedwigaeth
 - Pysgota
 - Mwynau
 - Twristiaeth
 - Cludiant
 - Cyfleustodau a chyfathrebu
 - Newid yn yr hinsawdd
 - Gweithgareddau datblygu ac alltraeth
 - Tai
 - Cyfleusterau cymunedol a gwasanaethau lleol

Mae'r cyngor yn cynnal proffiliau cymdeithasol-economaidd ar gyfer pob un o wardiau Abertawe (gweler <http://www.abertawe.gov.uk/proffiliauwardiau>). Ni cheir cyfanswm poblogaeth penodol ar gyfer yr AoHNE. Cyfanswm poblogaeth y ddwy ward sydd wedi'u cynnwys yn llwyr o fewn yr AoHNE (Gŵyr a Phennard) yw 6,300, gyda llawer mwy o bobl yn byw yn y wardiau eraill sy'n cyffinio â'r AoHNE. Mae ward Gŵyr yn un o wardiau Abertawe sy'n brin eu poblogaeth ac – o'i chymharu â gweddill Abertawe – mae poblogaeth wardiau'r AoHNE yn tueddu i fod yn hŷn â chyfraddau geni is.

Diwydiannau Cynradd

Amaethyddiaeth

- 3.3 Prif ddiwydiant yr AoHNE yw amaethyddiaeth. Mae pridd ansawdd da (mae cryn dipyn o'r ffermdir amgaeedig yn Radd 1 neu 2) a hinsawdd cymharol fwyn (i Gymru) yn golygu bod Gŵyr yn un o rannau mwyaf amaethyddol amrywiol a chynhyrchiol Cymru.
- 3.4 Dros y blynyddoedd diweddar mae ffermio, gan amlaf, wedi canolbwyntio ar fagu da byw (gwartheg a defaid yn bennaf) gyda rhai cnydau â'r garddwriaethol. Ar ôl cyfnod o ddirywiad yn y niferoedd, credir mai tair fferm laeth yn unig sydd ar ôl yn yr AoHNE. Mae darnau sylweddol o dir comin, gan gynnwys morfeydd heli gogledd Gŵyr, yn cael eu pori gan wartheg a defaid ac – i raddau llai – ferlod.
- 3.5 Mae ffermydd yn tueddu i fod yn fach neu'n ganolog eu maint, ac mae llawer wedi arallgyfeirio i dwristiaeth a/neu gynhyrchu nwyddau i'w gwerthu trwy siopau fferm. Mae'r rhan fwyaf o safleoedd carafanau ar benrhyn Gŵyr ar ffermydd, mae rhai ohonynt yn ffermydd gweithredol o hyd. Hefyd mae nifer bach o fentrau'n tyfu llysiau a ffrwythau.
- 3.6 Mae Arolwg Amaethyddol Cymru'n²⁴ darparu amrywiaeth o amcangyfrifon ystadegol ar gyfer y gwahanol fathau o ddefnydd tir, niferoedd da byw a gwaith amaethyddol. Ni cheir data penodol ar gyfer AoHNE Gŵyr, ond dyma rai ystadegau/tueddiadau allweddol ar gyfer yr ardaloedd sy'n cynnwys yr AoHNE:
- Roedd amcangyfrifon ar gyfer ffermydd gweithredol oddeutu 200 o hyd (e.e. 207 yn 2002; 198 yn 2006; 217 yn 2012);
 - Roedd amcangyfrifon ar gyfer cyfanswm nifer y ffermwyr oddeutu 360 o hyd, ond mae rhagor bellach yn rhan-amser (161 yn amser llawn/195 yn rhan-amser yn 2002, o'i gymharu â 146 yn amser llawn/220 yn rhan-amser yn 2012);
 - Bu gostyngiad yn yr amcangyfrifon ar gyfer ffermydd lle tyfir cnydau neu gynnyrch garddwriaethol o 94 yn 2002 i 71 yn 2012;
 - Yn fwy penodol, bu gostyngiad yn yr amcangyfrifon ar gyfer ffermydd sy'n tyfu grawnfwyd o 61 yn 2002 i 42 yn 2012.
- 3.7.1 Fel mewn mannau eraill, mae patrymau ffermio ar benrhyn Gŵyr dan ddylanwad prisiau'r farchnad am gynnyrch a gwasanaethau amaethyddol. Mae cynlluniau amgylcheddol amaethyddol wedi cefnogi ffermwyr ynglŷn â bioamrywiaeth, rheolir coetiroedd a rheoli amgylcheddol ehangach ar eu ffermydd. Yn 2010, roedd 53 o gytundebau Tir Gofal ar gyfer 3,198 ha o dir. Ar y dechrau, cymharol fach oedd y nifer yng Ngŵyr a oedd yn manteisio ar y

²⁴ Ystadegau ar gyfer Cymru 2013. Ystadegau ar Ardaloedd Bach Amaethyddol Cymru, 2002-2012. Bwletin Ystadegol SB102/2013. <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/agricultural-small-area-statistics/?lang=cy>. Mae 'ardaloedd bach' 199 a 200 yn cynnwys y cymunedau canlynol yn Abertawe: Pen-rhys; Porth Einon; Rhosili; Reynoldston; Llangynydd, Llanmadog a Cheriton; Llanrhidian Isaf a Llanrhidian Uchaf; Llanilltud Gŵyr; a'r Crwys.

cynllun Glastir presenol²⁵ (a ariennir trwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru) (394ha – Lefel Fynediad, 131ha – Uwch yn 2013), ond y ffigurau diweddaraf (Mawrth 2015) yw:

- Glastir: Mynediad – 1697ha
- Glastir: Tir Comin – 1781ha
- Glastir: Uwch – 826ha

- 3.8 Roedd mentrau eraill megis Menter Tir Comin Gŵyr (a'i holynydd Bywyd Tir Comin) yn helpu i annog mwy o bori ar dir comin – gan wella'i fioamrywiaeth a'i olwg trwy gael gwared ar brysgoed a rhedyn a chreu strimynnau atal tân.
- 3.9 Gall amaethyddiaeth effeithio mewn ffyrdd cymysg ar y dirwedd a bioamrywiaeth. Er enghraifft, gall amaethu â'r adael ymylon caeau ar gyfer bywyd gwyllt ond gall y defnydd o blaladdwyr gael effaith andwyol. Mae tir amaethyddol arfordir de-ddwyrain Gŵyr yn cynnal cymuned tra amrywiol o blanhigion â'r – un o'r grwpiau planhigion sy'n dirywio fwyaf ac sydd dan y bygythiad mwyaf yng Nghymru. Mae Gŵyr wedi cadw patrwm tirwedd cryf o gaeau bach i ganolig eu maint wedi'u ffinio gan wrychoedd a waliau cerrig; Fodd bynnag, gall defnyddio dalennau plastig a pholytwneli i orchuddio ffrwythau a llysiau – er nad ydynt yn gyffredin iawn yn yr AoHNE – gael effaith andwyol ar y dirwedd.
- 3.10 Un gweithgaredd sydd wedi codi pryderon yw codi porfa i ddefnyddio'r tyweirch fel math o arallgyfeirio ar ffermydd. Yn y dechrau gall hyn adael tirwedd ddiffrwyth ac arwain at golli cynefin bywyd gwyllt, er y gellir cymedroli hyn trwy godi ac ail-hau ardaloedd mewn cylchdro. Lle mae hyn yn gysylltiedig â thynnu uwchbridd, gallai'r effaith tymor hwy ar ansawdd y pridd fod yn fwy difrifol. Fodd bynnag, mae bellach angen Asesiad Effaith Amgylcheddol ar gyfer unrhyw newidiadau i dir heb ei amaethu neu wedi'i led-amaethu a allai beri i'r pridd erydu neu golli ei ffurfiant dros amser²⁶.
- 3.11 Mae'n anodd rhagweld dyfodol ffermio yng Ngŵyr. Mae'r Taliad Sengl wedi disodli cymorthdaliadau cynhyrchu blaenorol ac yn cefnogi cynhyrchu llai dwys. Un o ofynion cynllun y Taliad Sengl yw i ffermwyr ddangos eu bod yn cydymffurfio ag amrywiaeth o ofynion rheoli statudol ar gyfer yr amgylchedd, y cyhoedd, cyfarpar, ac iechyd a lles anifeiliaid. Disgwylir hefyd i ffermwyr barhau i gydymffurfio â'r holl ofynion hyn er mwyn cadw tir mewn cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da. Disgwylir i gynllun y Taliad Sengl barhau i gefnogi ffermwyr i ddiogelu a gwella nodweddion tirwedd a bioamrywiaeth, er enghraifft trwy gadw ymylon caeau a gwrychoedd, ac i reoli tir yn dda a chadw pridd mewn cyflwr da.

²⁵

<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/farming/schemes/glastir/?lang=cy>

²⁶ Rheoliadau Asesiad Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2007.

<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/conservationbiodiversity/eiahome/eia-whattheregs/?lang=cy>

- 3.12 Mae mentrau datblygu gwledig eraill â mwy o arweinyddiaeth leol yn cynnwys Gweithredu Gwledig Abertawe - gan gefnogi arallgyfeirio economi wledig, gwella ffyniant yn lleol a datblygu hunaniaeth Abertawe wledig o ran cynhyrchu bwyd, celf, crefftau a chynnyrch naturiol o safon i gyflenwi marchnadoedd lleol.
- 3.13 Mae cynnal tir pori ar ardaloedd helaeth tir comin yn hanfodol i'w cadwraeth. Mae rhai tiroedd comin wedi dioddef oherwydd diffyg pori gan fod arferion traddodiadol wedi newid. Mae pwysau gan draffig sy'n teithio ar draws y tiroedd comin wedi cyfuno i gynyddu'r perygl o ddamweiniau rhwng ceir a da byw. Mae terfynau cyflymder 40 mya wedi cael eu cyflwyno ar ffyrdd ar draws rhai tiroedd comin yng Ngŵyr er mwyn lleihau'r perygl hwn.
- 3.14 Mae llai o ffermwyr yn tueddu i fod yn amser llawn ac mae'r boblogaeth ffermio'n heneiddio wrth i lai o bobl ifanc ymgymryd â ffermio. Gallai cyfleoedd arallgyfeirio ar ffermydd amddiffyn ffermydd Gŵyr rhag rhai o'r effeithiau hyn a chynorthwyo wrth barhau â'r arferion rheoli tir cadarnhaol sy'n diogelu rhinweddau arbennig Gŵyr.
- 3.15 Bydd angen tai fforddiadwy a mentrau eraill i helpu ffermwyr ifanc. Disgwylir i dwf marchogaeth a stablau, a'r defnydd o ffermdir i bori ceffylau ger y pentrefi mwy ar ymyl yr AoHNE, barhau, gan roi golwg tebyg i badog i fwyfwy o gaeau. Yn ei dro, mae hyn yn debygol o gadw gwerthoedd tir yn uwch na'u gwerth amaethyddol arferol. Mae safleoedd sy'n cael eu defnyddio fel hyn yn tueddu i fod mewn rhannau o'r AoHNE sydd â'r tir ansawdd gorau.
- 3.16 Cynnal dichonoldeb ffermio ar benrhyn Gŵyr yw'r brif ystyriaeth wrth ddiogelu rhinweddau arbennig yr AoHNE. Roedd y cynllun rheoli blaenorol yn bwysig wrth gyfeirio'r CDU, y Strategaeth Dwristiaeth, Abertawe 2020, y Strategaeth Datblygu Economaidd a Strategaeth Datblygu Gwledig Abertawe 2007-2013. Mae angen i'r cynllun rheoli diwygiedig hwn ddarparu gwasanaeth tebyg i bolisiau cyfredol a'r rhai sy'n cael eu datblygu – yn benodol y Cynllun Datblygu Lleol a'r rownd bresennol o gynllunio a buddsoddi ar gyfer datblygu gwledig.

Coed, Coedwigaeth a Rheoli Coetiroedd

- 3.17 Mae'r diwydiant coed yng Ngŵyr yn fach, gyda dyrnaid o dyfwyr, un felin lifio sefydlog yng Nghilybion, nifer o felinau llifio teithiol a sawl contractwr rheoli coetiroedd. Mae gan ystâd Pen-rhys ardaloedd mawr o goetir ac mae CNC yn rheoli dau safle coetir cynhyrchol: Parkwood, sy'n blanhigfa coed cymysg gyda rhai coed llydanddail sy'n dyddio 150 mlynedd yn ôl, a Millwood, sy'n goetir coniferaidd/cymysg yn bennaf. Mae llawer o goetiroedd Gŵyr yn eiddo preifat neu'n eiddo i gyrff cadwraeth, sef Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru a Choed Cadw (yr Ymddiriedolaeth Goetiroedd yng Nghymru).
- 3.18 Dros y blynyddoedd diweddar, mae cynlluniau grant wedi annog perchnogion i reoli coetiroedd trwy gymynu, teneuo ac ail-hau mewn modd priodol. Rhoddir

mwyr o bwyslais ar amldeffnydd a budd cymunedol wrth reoli coetiroedd CNC, gan annog hamdden anffurfiol.

- 3.19 Gan mwyaf, mae coetiroedd Gŵyr mewn blociau bach sydd ar wasgar trwy'r dirwedd rhwng caeau a thiroedd comin. Mae Gŵyr yn arbennig o nodedig am ei goetiroedd ynn a gwern, sy'n nodweddion tirwedd a bioamrywiaeth pwysig; mae nifer o'r blociau coetir hyn o bwysigrwydd bioamrywiaeth Ewropeaidd (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig).
- 3.20 Mae coetiroedd yn gwneud cyfraniad sylweddol at olwg a chymeriad y dirwedd. Gall technegau rheoli sy'n defnyddio ymagwedd gorchudd parhaus ac yn dibynnu ar gymynu, ail-hau ac adfywio ar raddfa fach helpu i gynnal coetiroedd iach a deniadol.
- 3.21 Gyda phwyslais ac ymrwymiad tuag at reoli coetiroedd at ddefnydd cynaliadwy a chymunedol, mae dyfodol coetiroedd Gŵyr i'w weld yn sefydlog yn gyffredinol. Byddai clystyrau eraill o goetiroedd Gŵyr yn elwa o reolaeth weithredol briodol i wella'u cyflwr a chefnogi mentrau coedwigaeth. Byddai'n ddymunol gosod rhywogaethau llydanddail yn lle coed coniferaidd mewn rhai ardaloedd.
- 3.22 Mae clefyd coed ynn (*Chalara fraxinea*) yn fygythiad ansicr i ddyfodol coetiroedd ynn ar benrhyn Gŵyr. Mae'r achosion cyntaf bellach wedi cael eu cadarnhau ar benrhyn Gŵyr, ac mae angen i reolwyr yr AoHNE gadw mewn cysylltiad â'r sefyllfa barhaus yng Nghymru a gweddill y DU ac ymateb yn briodol.
- 3.23 Mae strategaeth 'Coetiroedd i Gymru'²⁷ Llywodraeth Cymru wedi nodi pedair thema strategol:
- Ymateb i newid yn yr hinsawdd;
 - Coetiroedd i bobl;
 - Sector coedwigaeth cystadleuol ac integredig; a'r
 - Ansawdd amgylcheddol.

Pysgota

- 3.24 Mae cymunedau pysgota Gŵyr yn enwog am y diwydiannau sy'n gysylltiedig â'r pysgod cregyn o safon maent yn dibynnu arnynt. Caiff cimychiaid a chrancod eu dal ym Mae Oxwich, a chaiff cocos eu casglu ar hyd arfordir y gogledd ym Moryd Llŵchwr sy'n dal i gael ei wneud â llaw. Mae CNC yn gweithio'n agos gyda'r diwydiant cocos i greu pysgodfa gynaliadwy sy'n gallu darparu incwm rheolaidd i ddeiliaid trwydded. Mae tair uned fach ar gyfer prosesu bwyd môr ar benrhyn Gŵyr ac mae'r cyflogwyr pwysig hyn dan bwysau i arallgyfeirio er mwyn sicrhau dyfodol tymor hir.
- 3.25 Yn gyffredinol, mae pysgota'n cyflogi nifer cymharol fach o bobl yn yr ardal. Ymgwymerir â physgota masnachol cyfyngedig o amgylch arfordir Gŵyr gan

²⁷ <http://www.forestry.gov.uk/wwstrategy>

fflyd fach o gychod sy'n cael eu hangori ger Morglawdd Tawe yn Abertawe. Hefyd ceir nifer o gychod cimychiaid yn Oxwich. Mae cregyn gleision yn cael eu casglu ger Whiteford ac ym Mae Abertawe, ac mae pysgotwyr masnachol o'r tu allan yn dal crancod a chimychiaid. Mae unigolion yn genweirio o'r glannau neu mewn caiac neu gychod preifat a siarter, y mae llawer o'r rhai olaf yn cael eu cadw ger Morglawdd Tawe.

Mwynau

- 3.26 Yn hanesyddol roedd calchfaen yn cael ei gloddio mewn chwareli bach yng Ngŵyr, gan ddarparu deunyddiau adeiladu a deunydd crai i weithgynhyrchu calch. Roedd un o'r chwareli mwyaf ym Mae Pwlldu, a oedd yn allforio craig i ogledd Dyfnaint dros y môr. Chwarel Barlands yn Kittle oedd y chwarel weithredol olaf yn yr AoHNE, a daeth y gweithrediad hwn i ben nifer o flynyddoedd yn ôl. Yng nghyffiniau Crofty a Phenclawdd - ar ymyl ogledd-ddwyreiniol yr AoHNE - roedd glo a mwynau eraill yn cael eu cloddio tan y 1930au, ond prin y ceir olion o'r gwaith cysylltiedig bellach ar wahân i siafftau mwyngloddiau sydd i'w gweld bob hyn a hyn ar forfa heli Llanrhidian.
- 3.27 Mae'n ofyniad yn ôl Polisi Cynllunio Mwynau Cymru (2000) i Gyngor Abertawe wneud darpariaeth ar gyfer adnoddau mwynol, ac mae Datganiad Technegol Rhanbarthol (2008) yn nodi'r cyfraniad a ddisgwylir. Prin iawn yw'r cronfeydd agregau yn ardal yr awdurdod lleol, ac mae gwaddodion calchfaen yn yr AoHNE yn rhan sylweddol o'r cronfeydd hyn.
- 3.28 Mae diddordeb masnachol ar hyn o bryd yn y posibilrwydd o echdynnu nwy methan haen lo (CBM) o'r cystradau glo trwy ddefnyddio proses a adwaenir fel 'ffracio'. Nwy sy'n llosgi'n lân yw CBM, ac mae allyriadau carbon deuocsid yn is na'r hyn a gynhyrchir trwy losgi glo ac olew. Rhoddwyd Trwydded Archwilio a Datblygu Petrolewm ar y Tir (PEDL) y DU ym mis Mai 2008 sy'n cynnwys 100,000 hectar o faes glo De Cymru, gan gynnwys rhannau o'r sir. Ar hyn o bryd mae llywodraeth y DU yn ymgynghori ynghylch rownd drwyddedu PEDL ychwanegol. Mae Nwyeiddio Glo Tanddaearol (newid glo solid i nwy trwy losgi tanddaearol) hefyd yn cael ei ystyried fel dull o gael hyd i gronfeydd ynni o'r cystradau glo dan Foryd Llŵchwr. Gallai datblygiadau ac echdynnu masnachol sy'n defnyddio'r technolegau hyn effeithio ar rinweddau arbennig yr AoHNE. Enghreifftiau o hyn yw:
 - effeithiau gweledol/ar y dirwedd o ganlyniad i isadeiledd/gyfleusterau ar yr arwyneb
 - effeithiau ar ddŵr daear oherwydd halogi trwy ychwanegolion/prosesau cemegol yn ystod y gwaith echdynnu.

Twristiaeth a Hamdden

- 3.29 Mae twristiaeth a hamdden yn sectorau cynyddol bwysig o economi leol yr AoHNE erbyn hyn. Mae ardal ehangach Bae Abertawe'n croesawu mwy na phedair miliwn o ymwelwyr y flwyddyn, y byddai'r rhan fwyaf ohonynt wedi ymweld â'r AoHNE. Yn 2011, gwariodd ymwelwyr tua £333m, gan gefnogi tua 5,600 o swyddi. Yn ôl arolwg ymwelwyr 2012, yr hyn a ysgogai bobl fwyaf i ymweld â'r ardal oedd yr arfordir (44%), golygfeydd/tirwedd (44%), traethau (35%). Y gweithgaredd mwyaf poblogaidd a wnaed gan bobl oedd cerdded lefel isel (2-8 milltir) (45%), sef y gweithgaredd mwyaf poblogaidd a wnaed gan ymwelwyr bob blwyddyn ers 2005 (a 52% o ymwelwyr yn 2012).
- 3.30 Amcangyfrifir bod 12,500 o welyau yng Ngŵyr, gyda'r mwyafrif (87%) ohonynt ar safleoedd gwersylla a pharciau carafanau. Canran o'r gwelyau hyn fydd eiddo/carafanau a ddefnyddir gan bobl leol at eu dibenion eu hunain ac felly nid ydynt ar gael i ymwelwyr o'r tu allan i'r ardal. Mae cryn nifer (c.250) o eiddo hunanarlwyo. Bu dirywiad yn nifer y safleoedd gwely a brecwast ac nid oes llawer o westai yn yr ardal wledig.
- 3.31 Ceir amrywiaeth eang o weithgareddau hamdden yng Ngŵyr, y mae llawer ohonynt yn gysylltiedig â'r rhinweddau arbennig, ac yn benodol â'r môr. Mae gweithgareddau hamdden sy'n ymwneud â'r dŵr yn cynnwys syrffio, plymio, pysgota, mynd mewn cwch a chanŵio. Mae gweithgareddau ar y tir yn cynnwys cerdded, beicio, marchogaeth, dringo, ogofa, golff, saethyddiaeth a rhai llai actif megis gwylio adar, archaeoleg ac ymweld â safleoedd hanesyddol. Mewn arolwg ymwelwyr yn 2001²⁸, nodwyd mai harddwch naturiol a llonyddwch oedd y prif resymau am ymweliadau. Gall paneli deongliadol ar safleoedd ac oddi arnynt ychwanegu at fwynhad, dealltwriaeth a gwerthfawrogiad ymwelwyr.
- 3.32 Mae gweithgareddau twristiaeth a hamdden yn cael effeithiau amgylcheddol ar harddwch naturiol a rhinweddau arbennig yr AoHNE. Er enghraifft, safleoedd carafanau sefydlog, tagfeydd traffig ar oriau brig ac erydiad llwybrau cerdded. Yn wir, yn arolwg ymwelwyr 2001, nodwyd mai pwysau gan ymwelwyr oedd y bygythiad mwyaf i AoHNE Gŵyr, gydag erydiad tywod yn ail a llygredd awyr (e.e. o ganlyniad i fygdarthau o ddisbyddwyr cerbydau). Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys sbwriel, yn benodol ar y traethau.
- 3.33 Crynhowyd tueddiadau twristiaeth diweddar²⁹ fel a ganlyn:
- Bu gostyngiad bach yn nifer yr ymweliadau gan drigolion y DU â Chymru rhwng 2006 a 2010 ond cynyddodd yn 2011 i bron 9.7m o ymweliadau.
 - Fel gweddill y DU, mae Cymru wedi elwa o effaith tuedd pobl i gymryd eu gwyliau ym Mhrydain. Ers y dirwasgiad economaidd yn 2008, mae nifer y gwyliau a gymerwyd yng Nghymru wedi cynyddu'n gryf gyda

²⁸ Arolwg Ymwelwyr Gŵyr 2001, a luniwyd ar gyfer Dinas a Sir Abertawe gan Ymchwil Farchnata Cymru ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2001

²⁹ The Tourism Company (2013). Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy a Chynllun Gweithredu ar gyfer Abertawe Wledig gan gynnwys AoHNE Gŵyr. Adroddiad drafft ar gyfer Partneriaeth Datblygu Gwledig Abertawe.

miliwn ychwanegol o ymweliadau yn 2011. Fodd bynnag, bu gostyngiad trawiadol yn nifer yr ymweliadau busnes ac ymweliadau â ffrindiau a pherthnasau yn ystod y cyfnod hwn.

- Cafwyd y twf mwyaf yn y gwyliau canolig eu hyd (4-7 noson) sydd wedi cynyddu bron 40% rhwng 2008 a 2011. Yn aml cymerir gwyliau o'r fath hyd mewn llety heb wasanaethau ac yn benodol berthnasol i benrhyn Gŵyr.
- Cafwyd twf hefyd, er y bu hwnnw'n llai, yn nifer yr arosiadau byr, sef y math mwyaf poblogaidd o wyliau yng Nghymru. Mantais y fath wyliau yw nad oes rhaid eu cymryd yn ystod y cyfnodau gwyliau prysuraf fel sy'n duedd gyda gwyliau hwy.
- Mae data am weithgareddau yr ymgwymerir â hwy yng Nghymru yn dangos pwysigrwydd gweld atyniadau, ymlacio, cerdded, ymweld â thraethau, ymweld â chestyll a nofio, sydd oll yn weithgareddau mae Gŵyr mewn sefyllfa cymharol fanteisiol i'w cynnig.
- Mae gweithgareddau awyr agored penodol wedi bod yn cynyddu o ran poblogrwydd. Mae marchnad y bobl sy'n ymgymryd 'r gweithgareddau hyn fel rhan o brofiad gwyliau cyffredinol yn llawer mwy na'r bobl sy'n cael eu sbarduno'n benodol ganddynt fel prif reswm eu taith.
- Mae gwyllo bywyd gwyllt, ymweld â thraethau a cherdded ger yr arfordir yn feysydd lle mae gan Gymru gyfran farchnad gref o'i chymharu â gweddill y DU.
- Mae segmentau'r farchnad sy'n cynnig cyfleoedd penodol i Gymru'n cynnwys Fforwyr Cyn Cael Teulu; Teuluoedd ar Gyllideb; Fforwyr Teulu Actif; Parau Hŷn sy'n Fforwyr Diwylliannol a Pharau sy'n Fforwyr Golygfeydd. Ar hyn o bryd mae cydbwysedd o deuluoedd a pharau yn ymweld â Gŵyr, gyda chryn nifer o grwpiau 'unigol' hŷn.
- Ystyrir cyfalaf naturiol yn gryfder cymharol penodol Cymru, sy'n cynnwys golygfeydd a thirweddau yn ogystal â thraethau. Mae gan benrhyn Gŵyr broffil rhyngwladol yn y cyd-destun hwn.

- 3.34 Er bydd y twf yn y diwydiant twristiaeth yn fuddiol i'r economi leol, mae'n rhaid cydbwysu hwn yn ofalus yn erbyn yr effaith andwyol bosib ar yr amgylchedd a'i rinweddau arbennig. Byddai ymagwedd yn seiliedig ar egwyddorion twristiaeth gynaliadwy yn ymdrin â hyn. Mae twristiaeth gynaliadwy yn ceisio sicrhau effaith isel ar yr amgylchedd a'r diwylliant lleol, wrth helpu i greu incwm, cyflogaeth a chadwraeth ecosystemau lleol; 'twristiaeth gyfrifol' yw hon, sy'n ystyriol yn ecolegol ac yn ddiwylliannol. Nod twristiaeth gynaliadwy yw sicrhau bod datblygu'n dwyn profiad cadarnhaol i'r bobl leol, cwmnïau twristiaeth a'r twristiaid eu hunain. Dylid gwneud mwy o ymdrech i annog egwyddor hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy – yn benodol ynglŷn â cherdded a beicio – ac mae hon wedi cael ei mabwysiadu gan Gynllun Datblygu Gwledig Abertawe. Mae'r adran Cludiant (isod) yn disgrifio'r cysylltiadau ag ymdrechion i hyrwyddo cludiant cyhoeddus ar gyfer cerddwyr. Mae gan gludiant cyhoeddus y fantais benodol o leihau effaith llygredd traffig, tagfeydd a phrinder lleoedd parcio ond, yn fwy cadarnhaol, mae'n hwyluso teithiau cerdded arfordirol llinellol (yn benodol). Gall cludiant cyhoeddus fod yn llesol gan alluogi ymwelwyr sy'n aros yn Abertawe (lle ceir y rhan fwyaf o lety) i gael mynediad hawdd i benrhyn Gŵyr heb ddefnyddio'u ceir. Mae'n fwy anodd

hyrwyddo beicio gan fod llai o ffyrdd 'diogel' yng Ngŵyr a hyd yn oed llai o ddewisiadau amgen na llwybr beicio anghyflawn gogledd Gŵyr.

- 3.35 Fel llawer o ardaloedd gwledig, mae Gŵyr yn dioddef o rai gweithgareddau niwsans ac anghyfreithlon. Mae'r rhain yn tueddu i gael eu cyfyngu i safleoedd penodol iawn ac yn cynnwys problemau cyffredin megis tipio anghyfreithlon, gwersylla gwyllt, partïon barbeciw a pharcio ceir mewn mannau amhriodol. Mae gyrru cerbydau 4x4 a beiciau modur oddi ar y ffordd wedi bod yn broblem ar Gefn Bryn ond fe'i lliniarwyd trwy osod byndiau ymyl ffordd. Bu problemau hefyd gyda beicwyr mynydd yn defnyddio'r llwybr arfordirol ac yn gwneud difrod i rai gwrthgloddiau Oes Haearn megis y Bulwark ar Fryn Llanmadog. Mae malurion a sbwriel wedi'u cludo ar y môr a'u gollwng ar y traethau yn broblem reolaidd ac mae sefydliadau megis Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru yn trefnu digwyddiadau glanhau traethau rheolaidd.

Cludiant

- 3.36 Ffyrdd cerbydau sengl yw rhwydwaith ffyrdd Gŵyr ac mae'n cynnwys un ffordd dosbarth A, pedair ffordd B a nifer o ffyrdd annosbarthedig. Mae llawer o'r ffyrdd yn gul ac wedi'u ffinio â gwrychoedd neu waliau cerrig sy'n cyfrannu at gymeriad yr AoHNE. Polisi'r cyngor yw peidio ag ehangu neu wella ffyrdd Gŵyr, oni bai bod hyn yn angenrheidiol er mwyn diogelwch ffyrdd. Mae Arweiniad Arfer Da ar gyfer Gwaith ar y Priffyrdd³⁰ yn cefnogi rheoli asedau priffyrdd Gŵyr sy'n cadw ac yn gwella'r AoHNE.
- 3.37 Teithio mewn car yw'r dull arferol o gludiant i breswylwyr ac ymwelwyr. Mae tagfeydd yn datblygu ar rai llwybrau i'r traethau mwy poblogaidd ar gyfnodau prysur. Gall rhannau cul o ffyrdd – yn benodol ger Parkmill a Chil-frwch – achosi oedi difrifol pan fo bysus yn cwrdd â cheir/carafanau, cartrefi modur, cerbydau nwyddau a choetsis. Awgryma ffigurau cyfrifo traffig fod y cynnydd yn lefelau'r traffig wedi arafu'n ddiweddar o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae nifer o'r meysydd parcio sy'n gwasanaethu'r cyrchfannau arfordirol mwy poblogaidd yn eiddo'r cyngor, ond mae rhai eraill yn fentrau preifat. Mae meysydd parcio'r traethau sydd agosaf i Abertawe (megis Bae Bracelet, Bae Langland a Bae Caswell) yn tueddu i lenwi ar gyfnodau prysur.
- 3.38 Mae gwasanaethau bysus cyhoeddus yn cyrraedd y rhan fwyaf o benrhyn Gŵyr o ganol Abertawe. Mae gan y prif lwybrau yn ne a gogledd Gŵyr wasanaethau mynych, ond mae llai o fysis yn gwasanaethu'r pentrefi llai yng ngogledd-orllewin Gŵyr a de Gŵyr. Gallai'r gostyngiadau parhaus mewn cyllid cyhoeddus ar gyfer bysus fod yn fygythiad i'r rhwydwaith yn y dyfodol a byddai cynllun cadarnhaol i ddiogelu, datblygu a gwella'r gwasanaeth ymhellach yn werthfawr. Mae Gower Explorer y Sul – a ariennir trwy'r CDG – wedi darparu gwasanaeth dynodedig yn ystod misoedd yr haf ers sawl blwyddyn, ond nid oes unrhyw gynllun tymor hir i barhau â'r gwasanaeth hwn. Yn aml, mae safleoedd bysus yng Ngŵyr yn israddol, yn ddiolwg ac yn amharu ar amgylchedd yr ymwelwyr.
- 3.39 Mae'r rhwydwaith yn gwasanaethu anghenion pobl leol yn ogystal ag ymwelwyr. Mae wedi cael ei hyrwyddo'n llwyddiannus i gerddwyr trwy gyfres o daflenni 'Mynd i Gerdded ar y Bws' a luniwyd gan DASA a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ogystal â thrwy amserlenni poced, taflenni a gwefan partneriaeth cludiant cyhoeddus BayTrans.
- 3.40 Mae'r car yn debygol o barhau i fod y prif ddull o gludiant yng Ngŵyr. I raddau bydd maint y rhwydwaith ffyrdd yn cyfyngu ar dwf traffig, a chan mai penrhyn yw Gŵyr, nid oes llwybrau trwodd ganddo. Ar yr un pryd, mae prinder lle parcio yn y cyrchfannau poblogaidd, costau tanwydd cynyddol ac amcanion polisi ehangach i geisio lleihau allyriadau carbon oll yn debygol o fod yn ffactorau dylanwadol. Yn y 1990au archwiliodd Prosiect Cludiant Cynaliadwy Gŵyr (Menter Cludiant Gŵyr gynt) ffyrdd o annog defnyddio dulliau eraill o gludiant yn hytrach na'r car am deithiau hamdden. Argymhellodd nifer o

³⁰ Arweiniad Arfer Da ar gyfer Gwaith ar y Priffyrdd yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr, DASA 2011.

gynlluniau peilot gan gynnwys gwasanaeth bysus ar gyfer cerddwyr a beicwyr, mesurau arafu traffig ar lwybrau sy'n croesi tir comin, a hyrwyddo llwybr i feicwyr ar ffordd â thraffig ysgafn yng ngogledd Gŵyr. Mae'r gwasanaeth bysus bellach yn rhan o rwydwaith bysus Gower Explorer ac mae'r llwybr beicio wedi cael ei gwblhau (gweler paragraff 3.46 isod). Byddai'n ymarfer gwerthfawr i adolygu materion a darpariaeth cludiant cynaliadwy yn ystod cyfnod y cynllun.

- 3.41 Mae amrywiaeth o faterion ynglŷn â pharcio ceir yn yr AoHNE wedi'u codi gan randdeiliaid ac ymwelwyr, gan gynnwys sut mae'n effeithio ar olwg ardal, gwaith cynnal a chadw, prisiau, lleoliad a nifer y lleoedd parcio ar gyfnodau prysur.
- 3.42 Yn 2007 sefydlwyd partneriaeth newydd i hyrwyddo cludiant cyhoeddus yn ardaloedd gwledig Abertawe, gan gynnwys Gŵyr. Gwnaed hyn ar ôl sefydlu rhwydwaith bysus y Gower Explorer yn 2004 ac adroddiad ymgynghorydd dilynol a argymhellodd y dylid sefydlu'r bartneriaeth i hyrwyddo cludiant cyhoeddus. Mae Partneriaeth Teithio a Thwristiaeth Bae Abertawe (a adwaenir dan ei henw brand BayTrans) yn cynnwys awdurdodau lleol, gweithredwyr cludiant cyhoeddus, CNC, Cymdeithas Gŵyr a Chymdeithas y Cerddwyr. Trwy gyfuno taflenni a gwefan, mae BayTrans yn annog mwy o ddefnydd o gludiant cyhoeddus ar gyfer gweithgareddau hamdden megis cerdded. Er enghraifft, bu cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n defnyddio bysus y Gower Explorer at y diben hwn, gyda chynnydd 35% yn nifer y defnyddwyr yn y tair blynedd cyntaf.
- 3.43 Yn gyffredinol, nid yw ffyrdd Gŵyr yn addas iawn ar gyfer beicio gan eu bod yn fryniog ac yn gul mewn llawer o leoedd. Er bod beicio mynydd yn weithgaredd poblogaidd yn gyffredinol, ni ddefnyddir llawer o'r AoHNE gan nad yw'r llwybrau oddi ar y ffyrdd yn barhaus. Mae llwybr ar ffyrdd â thraffig ysgafn wedi cael ei sefydlu yng ngogledd Gŵyr. Mae'n gysylltiedig â'r Lôn Geltaidd (llwybr 4 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol) yn Nynfant a Thregŵyr, gyda chynlluniau i ddilyn llwybr oddi ar ffyrdd rhwng Llanmorlais a Thregŵyr yn y pen draw, mae rhan ohono eisoes wedi cael ei greu.
- 3.44 Mae rhwydwaith hawliau tramwy helaeth o fwy na 400km, sy'n cynnwys llwybrau cerdded a llwybrau ceffyl yn bennaf. Yn y gorffennol roedd y rhain yn cael eu defnyddio i deithio rhwng pentrefi ar droed neu ar gefn ceffyl. Erbyn hyn cânt eu defnyddio'n bennaf at ddibenion hamdden, ar gyfer cerdded, beicio a marchogaeth. Mae nifer o'r llwybrau'n ffiniedig, neu'n geuffyrdd, a chanddynt eu cymeriad eu hunain. Mae'r rhwydwaith hwn yn adnodd pwysig sy'n darparu llwybrau didraffig rhwng aneddiadau.
- 3.45 Agorwyd Llwybr Arfordir Cymru yn 2012 ac mae'r rhan yng Ngŵyr yn un o'i uchafbwyntiau. Mae'r llwybr rhwng y Mwmbwls a Crofty yn 38 milltir o hyd. Roedd y broses o roi'r rhaglen ddatblygu ar waith ledled Gŵyr yn cynnwys gwelliannau i'r rhwydwaith hawliau tramwy sy'n gysylltiedig â Llwybr Arfordir Cymru. Byddai cysylltiadau gwell rhwng rhwydwaith hawliau tramwy Gŵyr, Llwybr Arfordir Cymru, llwybrau bysus a safleoedd bysus yn ddefnyddiol i atgyfnerthu datblygiad twristiaeth gynaliadwy yn seiliedig ar gerdded.

- 3.46 Nid oes unrhyw reilffyrdd yn yr AoHNE. Y gorsafoedd rheilffyrdd agosaf yw Tregŵyr, i ogledd-ddwyrain o'r AoHNE, a'r brif orsaf yn Abertawe. Mae cysylltiadau da â gwasanaethau bysus.
- 3.47 Mae maes awyr Abertawe ar Gomin Fairwood ar ochr ddwyreiniol yr AoHNE. Ni chafwyd unrhyw deithiau hedfan wedi'u hamserlennu ers 2004 ac mae'r maes awyr bellach yn cael ei ddefnyddio gan awyrennau preifat ac Ambiwlans Awyr Cymru.

Cyfleustodau a Chyfathrebu

- 3.48 Yn gyffredinol, mae asedau a chyfarpar cwmnïau cyfleustod (e.e. gwaith trin carthffosiaeth, gorsafoedd pwmpio, is-bwerdai a llinellau trosglwyddo) yn fach ac nid ydynt yn amharu ar olwg yr amgylchedd. Mae'n ddyletswydd ar gwmnïau ³¹ i ystyried cadw a gwella harddwch naturiol yr AoHNE wrth gyflawni eu swyddogaethau. Yn 2010, ymunodd Western Power Distribution (WPD, y cwmni dosbarthu trydan lleol) â chynllun Ofgem i osod llinellau pŵer â foltedd 10,000 a llai dan ddaear. Mae hyn yn rhan o broses cynllunio corfforaethol WPD. Mae panel sy'n cynnwys cynrychiolwyr y tirweddau gwarchodedig yn ne Cymru (AoHNE Gŵyr, AoHNE Dyffryn Gwy a pharciau cenedlaethol y Bannau Brycheiniog ac Arfordir Sir Benfro) wedi'i sefydlu i asesu ceisiadau am gyllid ar gyfer cynlluniau priodol. Mae darnau o linellau pŵer yn Rhosili a Chefn Bryn wedi cael eu gosod dan ddaear ac mae nifer o gynlluniau eraill yn cael eu hystyried.
- 3.49 Mae cyfleusterau trin carthffosiaeth a dŵr gwastraff cyhoeddus cyfyngedig yng Ngŵyr; gallai hyn gyfyngu ar ddatblygu mewn rhai ardaloedd a gallai unrhyw ddatblygu sy'n cael ei wneud gynyddu'r perygl o lygredd lle mae trefniadau gwaredu carthffosiaeth yn anfoddhaol.
- 3.50 O ganlyniad i'r twf mewn ffonau symudol ac yn narpariaeth offer cyfathrebu radio digidol (TETRA) ar gyfer yr heddlu, codwyd nifer o fastiau yn yr AoHNE. Mae cytundeb rhwng y tirweddau gwarchodedig yng Nghymru a Lloegr a'r Gymdeithas Gweithredwyr Ffonau Symudol³². Mae'r cytundeb yn cydnabod rhwymedigaethau'r gweithredwyr i ddiogelu rhinweddau arbennig y ddwy AoHNE a'r parciau cenedlaethol ac, ar yr un pryd, mae'r gymdeithas yn cydnabod y rhwymedigaethau ar y gweithredwyr i ddarparu gwasanaeth mor gyson â phosib ym mhob rhan o gefn gwlad, gan gynnwys ardaloedd gwarchodedig.
- 3.51 Mae nifer y rhannau o benrhyn Gŵyr lle nad oes signal i ffonau symudol yn destun pryder e.e. os caiff gwasanaethau bysus eu hoedi neu eu canslo, bydd yn anodd i ddefnyddwyr cludiant cyhoeddus ffonio am wybodaeth neu gymorth. Bydd y Prosiect Isadeiledd Ffonau Symudol (MIP)³³ yn darparu signal i ffonau symudol mewn mannau lle na cheir un ar hyn o bryd; prosiect isadeiledd ydyw ar gyfer y DU gyfan dan arweiniad Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon y DU er mwyn darparu mastiau ffonau symudol. Mae pob un o'r pedwar gweithredwr rhwydwaith ffonau symudol cyhoeddus (EE, Vodafone, 02 a Three) yn cefnogi'r prosiect a disgwylir i bob gweithredwr osod ei gyfarpar ar bob mast MIP. Mae gan yr MIP tan ddiwedd mis Mawrth 2016 i gaffael safleoedd a gosod holl isadeiledd y mastiau. Nodir Abertawe (gan gynnwys Gŵyr) yng Ngham 4 y prosiect. O ystyried arwyddocâd cenedlaethol y prosiect hwn a'r amserlenni caeth, anogir awdurdodau lleol i wneud

³¹ A.85 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000

³² <http://www.mobilemastinfo.com/joint-agreement/>

³³ <http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/dear-cpo-letters/mobile-infrastructure-project-letter/?lang=cy>

penderfyniadau am geisiadau (beth bynnag y bo'r penderfyniad) ynglŷn ag isadeiledd yr MIP cyn gynted â phosib.

- 3.51 Mae darpariaeth band eang mewn ardaloedd gwledig, megis yr AoHNE, yn dod yn gynyddol bwysig i gefnogi busnesau lleol yn ogystal â darparu mynediad rhyngwrdd i ddefnyddwyr eraill. Mae pob cyfnewidfa ffôn BT yn yr AoHNE wedi cael ei galluogi i ddarparu band eang. Fodd bynnag, mae cyflymder cysylltiad mewn rhai rhannau o'r AoHNE yn rhy araf at ddefnydd busnesau ar hyn o bryd. Mae rhai cynlluniau band eang cymunedol, e.e. Prosiect Band Eang Gŵyr,³⁴ wedi bod yn llwyddiannus wrth wneud buddsoddi mewn isadeiledd yn ddichonol ac wrth gyflwyno band eang cyflym iawn i rannau helaeth o'r AoHNE.
- 3.52 Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cyhoeddi y bydd yn cyflwyno'r cynllun 'Cyflymu Cymru'³⁵, lle bydd BT yn gwella'r isadeiledd a'r gwasanaeth i ardaloedd nad ydynt yn cael eu hystyried yn ddichonol yn economaidd.

³⁴ <http://www.gowerbroadband.com/>

³⁵ <http://www.superfast-cymru.com/home>

Newid yn yr Hinsawdd

- 3.53 Y newid yn yr hinsawdd yw'r egwyddor a dderbynnir yn eang erbyn hyn bod allyriadau nwyon tŷ gwydr cynyddol o ganlyniad i weithredoedd pobl yn effeithio ar hinsawdd y byd. Hyd yn oed os yw ymdrechion parhaus i liniaru'r allyriadau hyn yn llwyddiannus, mae'r ddaear eisoes ar drywydd di-droi'n-ôl i newid sylweddol yn yr hinsawdd.
- 3.54 Mae Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd³⁶ yn amlinellu:
- y dystiolaeth wyddonol gyfredol am y newid yn yr hinsawdd,
 - yr effeithiau a ddisgwylir yng Nghymru,
 - yr angen am weithredu brys i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.
 - a'r angen i baratoi at effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.
- 3.55 Ym mis Ionawr 2012, cyhoeddwyd Asesiad Risg y DU o'r Newid yn yr Hinsawdd (ARNH), gan gynnwys yr ARNH ar gyfer Cymru³⁷. Asesiad oedd hwn o'r heriau a'r cyfleoedd posib o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd, yn seiliedig ar y newidiadau hinsoddol a ragfynegir gan yr UK Climate Projections (UKCP09). Mae'r rhain yn cynnwys:

Heriau:	Cyfleoedd*:
Cynnydd yn nifer y marwolaethau a'r achosion o salwch sy'n gysylltiedig â thywydd poeth	Cynnydd yn ffrwythlondeb gwair, a allai arwain at gynnydd yn nifer y da byw a geir.
Newidiadau yng nghyflwr y pridd, bioamrywiaeth a'r dirwedd oherwydd hafau mwy sych a chynnes.	Cynnydd yn nifer y twristiaid a thymor twristiaeth hwy
Gostyngiad yn llif afonydd ac argaeledd dŵr yn ystod yr haf yn effeithio ar y cyflenwad dŵr a'r amgylchedd naturiol	Gostyngiad yn nifer yr achosion o salwch a marwolaethau sy'n gysylltiedig â thywydd oer
Llifogydd cynyddol ar yr arfordir ac ar y tir, sy'n effeithio ar bobl, eiddo ac isadeiledd	
Newidiadau i'r arfordir gan gynnwys erydu a cywasgu arfordirol, sy'n effeithio ar draethau, ardaloedd rhynglanwol a nodweddion arfordirol eraill	* - mae cyfleoedd yn debygol o fod yn fyrhoedlog wrth i ni symud tuag at dymereddau hyd yn oed yn uwch erbyn diwedd y ganrif
Newidiadau mewn rhywogaethau gan gynnwys dirywiad mewn rhywogaethau brodorol, newidiadau i batrymau mudo a	

³⁶ Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd – Llywodraeth Cynulliad Cymru Hydref 2010.
<http://cymru.gov.uk/topics/environmentcountryside/climatechange/?lang=cy>

³⁷ <https://www.gov.uk/government/policies/adapting-to-climate-change>

chynnydd yn nifer y rhywogaethau tramor ac ymledol	
Perygl cynyddol o blâu ac afiechydon yn effeithio ar amaethyddiaeth a choedwigaeth. Mae'r perygl i dda byw yn bryder penodol	

- 3.56 Mae Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd yn disgrifio ffyrdd y gall busnesau, sefydliadau, cymunedau ac unigolion chwarae eu rhan wrth leihau eu hól-troed carbon. Bydd y CDLI yn cynnwys asesiad o'r posibilïadau ar gyfer adnoddau a thechnolegau ynni adnewyddadwy a mesurau ynni- effeithlonrwydd/cadwraeth. Bydd angen i'r CDLI sicrhau nad yw'r datblygiadau hyn yn amharu ar rinweddau arbennig yr AoHNE.
- 3.57 Un o gamau cyntaf tuag at ddeall y peryglon mwyaf sy'n wynebu'r AoHNE oherwydd y newid yn yr hinsawdd fydd cynnal asesiad o berygl mawr i rinweddau arbennig yr AoHNE. Wedi'i gyfeirio gan ARNH ar gyfer Cymru, bydd yr asesiad yn nodi'r nodweddion hynny sy'n wynebu'r perygl mwyaf ac yn ein galluogi i gynllunio ar gyfer y newidiadau hynny – neu eu lliniaru lle bynnag y bo modd.
- 3.58 Ymdriniwyd â heriau'r dyfodol sy'n ymwneud yn benodol â llifogydd ac erydiad arfordirol trwy'r adolygiad o'r Cynllun Rheoli Traethlin (CRhT2). Dyma'r ymagweddau tymor hir ar gyfer tair rhan arfordirol yr AoHNE:

Rhan o'r Arfordir	Crynodeb o'r Ymagwedd Reoli
Pen y Mwmbwls i Ben Pyrod	Caniatáu erydiad naturiol i'r rhan o'r arfordir sydd heb ei datblygu; cadw'r llinell bresennol trwy gynnal a chadw amddiffynfeydd presennol y baeau; a rheoli'r systemau twyni tywod presennol.
Pen Pyrod i Drwyn Whiteford	Caniatáu i'r arfordir hwn sydd heb ei ddatblygu gan mwyaf barhau i ddatblygu'n naturiol. Ni cheir llawer o asedau cymdeithasol economaidd sydd mewn perygl o erydu neu lifogydd arfordirol a'r ymagwedd gymeradwy yw adleoli asedau yn hytrach nag adeiladu amddiffynfeydd.
Moryd Lluchwr	Caniatáu i'r glannau heb eu hamddiffyn ddatblygu'n naturiol; a chynnal y llinell bresennol trwy gynnal a chadw (ac adnewyddu, os gellir cyfiawnhau hynny) yr amddiffynfeydd presennol er mwyn lleihau'r perygl o erydu a llifogydd arfordirol i asedau allweddol.

Gweithgareddau Alltraeth

- 3.59 Gall gweithgareddau alltraeth gael effaith ar dirwedd a morwedd AoHNE. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gynllunio morol sy'n ofynnol o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyflwyno Cynllun Morol ar gyfer Cymru erbyn 2015. Bydd y Cynllun Morol yn amlinellu polisiau ar gyfer datblygu cynaliadwy yn amgylchedd morol Cymru.
- 3.60 Y prif weithgaredd a allai effeithio ar benrhyn Gŵyr yw treillio tywod morol a datblygiadau tyrbinau gwynt alltraeth.
- 3.61 Mae treillio tywod morol at ddefnydd y diwydiant adeiladu wedi cael ei wneud mewn safleoedd amrywiol ym Môr Hafren ers amser maith, gan gynnwys Banc Helwick i'r de o Borth Einon. Rhwng 1964 a 1999, echdynnwyd cyfanswm o 1,265,241 o dunelli. Mae trwyddedu gan Lywodraeth Cymru ar ran Ystâd y Goron yn rheoleiddio echdynnu tywod. Mae Cymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain³⁸ yn llunio adroddiadau blynyddol am ardaloedd trwyddedig ac ardaloedd/cyfeintiau wedi'u treillio.
- 3.62 Atodiad C (Dealltwriaeth o'r Broses Waelodlin) o'r CRhT2 yn amlinellu'r dystiolaeth a'r casgliadau ynghylch y cysylltiadau rhwng treillio morol ac amrywiadau yn lefelau gwaddodion traeth o gwmpas Gŵyr. Ymddengys nad oes llawer o dystiolaeth bendant o effeithiau treillio ar y traethau.
- 3.63 Mae cynigion ar gyfer fferm wynt Atlantic Array wedi cael eu tynnu'n ôl gan y datblygwr; fodd bynnag, gallai datblygiadau ynni adnewyddadwy eraill ym Môr Hafren effeithio ar y forwedd a golygfeydd allweddol o'r AoHNE.

³⁸ <http://www.bmapa.org/downloads/reference.php>

Datblygu

- 3.64 Caiff y rhan fwyaf o newidiadau i ddefnydd tir eu rheoleiddio trwy'r system cynllunio datblygu. Mae polisi cynllunio yn y Cynllun Datblygu Unedol a'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) a fabwysiadwyd yn rhoi'r fframwaith ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â rheoli datblygu. Pwyslais y polisiâu presennol yw na ddylai datblygu yn yr AoHNE amharu ar gadwraeth a gwelliannau i harddwch naturiol ac amgylchedd adeiledig hanesyddol yr AoHNE. Mae polisiâu'n caniatáu am ddatblygiadau tai bach y mae eu maint a'u dyluniad yn cydweddu â'r lleoliad presennol. Diben y polisiâu yw sicrhau bod datblygiad yn yr AoHNE o fath, maint ac ansawdd sy'n cyd-fynd â'r rhinweddau arbennig ac yn gwella'r dirwedd.
- 3.65 Cafodd Canllaw Dylunio AoHNE Gŵyr ei gyhoeddi a'i fabwysiadu fel CCA yn 2011. Bwriedir i'r arweiniad manwl hwn helpu perchnogion eiddo, datblygwyr a chynllunwyr i sicrhau bod datblygu'n cydweddu â chymeriad unigryw amgylchedd naturiol ac adeiledig Gŵyr. Mae'r canllaw yn darparu offeryn dylunio ymarferol i'w ddefnyddio gan yr holl bobl sy'n ymwneud â'r broses ddylunio a datblygu, p'un a oes angen caniatâd cynllunio ai peidio. Mae CCA perthnasol eraill yn cynnwys Cynllunio ar gyfer Diogelwch Cymunedol³⁹.
- 3.64 Mae llai o reoli cynllunio ynghylch adeiladau amaethyddol, sy'n gallu - oherwydd eu maint a'r deunyddiau maent wedi'u gwneud ohonynt - cael effaith sylweddol ar y dirwedd. Dylid gallu defnyddio'r egwyddorion a'r cyngor yn y Canllaw Dylunio o hyd ar gyfer y datblygiadau hyn.
- 3.66 Gallai rhagor o newidiadau mewn amaethyddiaeth effeithio ar y galw am adeiladau newydd ac addasu adeiladau eraill at ddibenion nad ydynt yn amaethyddol. Mae enghreifftiau cyffredin yn cynnwys troi ysguboriau'n dai ac addasu adeiladau i ddarparu llety gwyliau. Mae Nodyn Cyngor Technegol 6 Llywodraeth Cymru, Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (TAN 6), hefyd yn ymdrin â'r materion hyn⁴⁰.

³⁹ Cynllunio ar gyfer Diogelwch Cymunedol Dinas a Sir Abertawe (2012).

<http://www.abertawe.gov.uk/spg>

⁴⁰ Nodyn Cyngor Technegol 6 Polisi Cynllunio Llywodraeth Cymru 6 Gorffennaf 2010

Tai

- 3.68 Mae patrymau anheddiad, dyluniad adeiladau unigol a'r lle rhyngddynt yn cyfrannu at olwg y dirwedd a'i hesblygiad dros amser. Mae anheddau'n rhan bwysig o'r olygfa hon, ac maent yn hanfodol ar gyfer y rhai sy'n gweithio yng nghefn gwlad. Mae Canllaw Dyluniad AoHNE Gŵyr yn rhoi arweiniad ar ddatblygu sympathetig, cynnal a chadw ac adnewyddu adeiladau yn yr AoHNE.
- 3.70 Mae'r CDU yn nodi 16 o 'bentrefi bach' yn yr AoHNE lle byddai datblygiadau preswyl (a dibreswyl) bach yn cael eu cefnogi yn amodol ar feini prawf penodol. Un 'pentref mawr' yn unig sydd wedi cael ei nodi yn yr AoHNE – Pennard/Southgate – lle caniateir adeiladu tai mewn amgylchadau eithriadol os byddai hyn yn diwallu'r angen lleol am dai fforddiadwy.
- 3.71 Fel mewn llawer o ardaloedd gwledig eraill, mae tai fforddiadwy ar benrhyn Gŵyr yn broblem i bobl leol. Oherwydd pris tai, ynghyd â'r anhawster ar hyn o bryd wrth godi blaendal ar gyfer morgais, nid yw llawer o bobl leol sy'n brynwyr tro cyntaf yn gallu prynu tŷ. Mae argaeledd tai fforddiadwy i'w rhentu neu eu prynu yn bwysig wrth helpu i gynnal cymunedau ag ystod oedran gytbwys lle nad pobl gyfoethog neu wedi ymddeol yw'r mwyafrif. Gellir rhoi caniatâd am ddiben penodol darparu tai fforddiadwy i ddiwallu'r prinder presennol i bobl y mae angen iddynt fyw'n lleol lle nad oes modd cyflawni hyn trwy'r farchnad dai gyffredinol.
- 3.72 Mewn nifer o gymunedau, mae cartrefi gwyliau/ail gartrefi'n gyfran helaeth o'r eiddo sydd ar gael a gall y rhain fod yn wag am gyfnodau hir o'r flwyddyn, gan effeithio ar gymunedau a chyfleusterau cymunedol. Fodd bynnag, gall yr effaith fod yn gymysg gan fod yr incwm a geir o dwristiaeth yn gallu bod yn sylweddol a chefnogi amrywiaeth o fentrau sy'n canolbwyntio ar y farchnad dwristiaeth.
- 3.73 Fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer Strategaeth a Ffefrir y CDLI, mae Astudiaeth Dichonoldeb Tai Fforddiadwy⁴¹ yn ystyried goblygiadau posib darpariaeth tai fforddiadwy o ran dichonoldeb datblygiadau tai. Mae'r astudiaeth yn nodi trothwyau priodol ac yn ymdrin yn benodol â darpariaeth tai fforddiadwy mewn rhannau gwahanol o Ddinas a Sir Abertawe – gan gynnwys Gŵyr.

⁴¹ Andrew Golland Associates 2013. Asesiad o Ddichonoldeb Tai Fforddiadwy Dinas a Sir Abertawe <http://www.swansea.gov.uk/index.cfm?articleid=55469>

Cyfleusterau Cymunedol a Gwasanaethau Lleol

- 3.73 Mae gan y rhan fwyaf o bentrefi'r AoHNE rai cyfleusterau cymunedol megis eglwys, neuadd bentref neu dafarn. Mae cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol yn bwysig er lles preswylwyr sy'n byw yn yr AoHNE. Mae ambell neuadd bentref yn yr AoHNE wedi cael ei hadnewyddu dros y blynyddoedd diweddar gyda chyfleusterau ychwanegol i ddarparu ar gyfer defnydd cynyddol a sicrhau cyfleusterau gwell i bobl anabl. Mae arian wedi cael ei ddarparu o ffynonellau megis Cronfa Datblygu Cynaliadwy'r AoHNE a'r Cynllun Datblygu Gwledig.
- 3.74 Mae darpariaeth meddygon a deintyddion yn brin yn yr AoHNE gyda chanolfan feddygol Scurlage yn brif ganolfan gorllewin Gŵyr, a meddygfa Pennard yn brif ganolfan dwyrain Gŵyr. Ceir cyfleusterau meddygol eraill mewn pentrefi ychydig y tu allan i'r AoHNE (e.e. Llandeilo Ferwallt a Phenclawdd). Mae is-swyddfeydd post yn brinnach ac mae o leiaf un wedi cau ers cyhoeddi'r cynllun gwreiddiol yn 2006.
- 3.75 Mae gan y rhan fwyaf o bentrefi o leiaf un siop, ond mae'r sefyllfa hon yn cael ei bygwth gan y nifer cynyddol o bobl sy'n siopa mewn siopau mwy ac archfarchnadoedd y tu allan i'r AoHNE a chan wasanaethau o'r rhain sy'n dosbarthu nwyddau i gartrefi ym mhentrefi'r AoHNE. Mae'r siop gymunedol yn Llanmadog wedi symud yn ddiweddar i ddatblygiad newydd wedi'i adeiladu at y diben ac mae nifer o farchnadoedd cynnyrch lleol yn yr AoHNE a'r cyffiniau sy'n adlewyrchu'r diddordeb cynyddol mewn bwyd, celf a chrefftau lleol. Mae'r prosiect Gweithredu Gwledig Abertawe wedi bod yn cefnogi a datblygu cyflenwyr lleol i fanteisio i'r eithaf ar eu cynnyrch ac i gefnogi'r economi wledig.
- 3.76 Mae tair ysgol gynradd yn yr AoHNE, sef yn Llan-y-tair-Mair, Llanrhidian a Phennard. Ysgolion bwydo yw'r rhain ar gyfer yr ysgolion cyfun agosaf yn Nhregŵyr neu Landeilo Ferwallt. Nid oes chweched dosbarth gan yr ail un ac felly mae'n rhaid i ddisgyblion ôl-16 oed deithio i Abertawe neu Gorseinon. Darperir addysg bellach hefyd yng Ngholeg Gŵyr yng Ngorseinon ac Abertawe. Mae safleoedd ysgol yn lleoliad pwysig ar gyfer gweithgareddau cymunedol, megis dosbarthiadau addysg bellach analwedigaethol a chyfarfodydd cymunedol.
- 3.77 Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Nodyn Cyngor Technegol (TAN)⁴² i roi cyngor ar sut gall y system gynllunio gefnogi cymunedau gwledig a chyfrannu at:
- Economiâu gwledig cynaliadwy;
 - Tai gwledig cynaliadwy;
 - Gwasanaethau gwledig cynaliadwy; ac
 - Amaethyddiaeth gynaliadwy.
- 3.78 Yn y cyflwyniad, noda'r TAN fod gan 'y system gynllunio rôl allweddol i'w chwarae wrth gefnogi cyflenwad cymunedau gwledig cynaliadwy. Gall helpu i

⁴² Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy

sicrhau y cyflawnir datblygiadau priodol yn y man cywir ar yr adeg gywir drwy sicrhau bod digon o dir ar gael i ddarparu cartrefi a chyfleoedd gwaith i bobl lleol, gan helpu i gynnal gwasanaethau gwledig.

- 3.79 Ar yr un pryd, rhaid i'r system gynllunio ymateb i'r heriau sy'n codi yn sgil newid yn yr hinsawdd, er enghraifft drwy gynnwys yr angen i gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Rhaid iddo hefyd warchod a gwella'r amgylchedd naturiol a hanesyddol a diogelu cefn gwlad a mannau agored. Nod cyffredinol y system gynllunio yw cefnogi cymunedau gwledig sy'n byw ac yn gweithio er mwyn iddynt fod yn gynaliadwy yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol. Dylai awdurdodau cynllunio geisio cryfhau cymunedau gwledig, drwy helpu i sicrhau bod modd i'w trigolion presennol weithio a defnyddio gwasanaethau yn lleol, gan ddefnyddio dulliau teithio carbon isel a chael cyfran uwch o'u hynni o ffynonellau adnewyddadwy lleol'.

PENNOD 4 Y WELEDIGAETH

- 4.1 Wrth ddatblygu cynllun rheoli 2006, buddsoddwyd cryn amser mewn llunio a chytuno ar weledigaeth 20 mlynedd ar gyfer yr AoHNE. Trosglwyddwyd y weledigaeth gyffredinol ar gyfer yr AoHNE i Gynllun Rheoli 2016, sef:

Cydnabyddir Gŵyr gan ei breswylwyr a'i ymwelwyr fel tirwedd warchodedig o bwys rhyngwladol lle mae'r gydberthynas rhwng pobl a natur dros amser wedi creu ardal o gymeriad unigryw â gwerth esthetig, ecolegol a diwylliannol pwysig, ag amrywiaeth biolegol uchel. Caiff ei harddwch naturiol ei gynnal trwy gadw a gwella'i rinweddau arbennig naturiol, wrth gefnogi economi leol gynaliadwy a chynnal cymunedau sy'n ddiwylliannol gyfoethog ac fe'i hadlewyrchir yn ansawdd a maint yr amgylchedd adeiledig.

- 4.2 Ymhelaethir ar y weledigaeth gyffredinol hon mewn strategaeth sy'n seiliedig ar 14 thema allweddol, mae gan bob un ei gweledigaeth 20 mlynedd ei hun (gweler y tabl isod). Mae'r rhain hefyd wedi cael eu trosglwyddo o gynllun rheoli 2006.

Datganiadau Gweledigaeth y Themâu:

Thema	Gweledigaeth 20 mlynedd ar gyfer y thema
1: Bioamrywiaeth	Tirwedd â bywyd gwyllt cyfoethog sydd o bwys rhyngwladol, â'i chynefinoedd allweddol o laswelltir calchfaen, rhostir iseldir, morfeydd heli, twyni tywod, corsydd dŵr croyw a choetiroedd gwern ac ynn mewn cyflwr da a sefydlog.
2: Daeareg	Tirwedd ddaearegol o bwys rhyngwladol sy'n cael ei deall a'i pharchu, sy'n parhau i greu cyfleoedd addysg amgylcheddol, ac sy'n cael ei gwarchod rhag gweithgareddau niweidiol.
3: Tirwedd a Morwedd	Tirwedd o fri rhyngwladol am ei graddfa fach a'i hamrywiaeth o gymeriad sydd â chysylltiad agos â'r môr amgylchynol ac sy'n cefnogi datblygu cynaliadwy. Tirwedd lle mae'r amgylchedd adeiledig yn cydweddu â'r cymeriad hwn a lle mae'r patrymau caeau bach, ardaloedd o dir comin, a cheuffyrdd yn parhau fel enghreifftiau o effaith dyn wrth ddatblygu cymeriad y dirwedd.
4: Treftadaeth Ddiwylliannol	Tirwedd lle mae'r dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog, gyda'i henebion, ei thirweddau hanesyddol, ei pharcdiroedd, ei gerddi a'i hadeiladau hanesyddol, yn cael ei rheoli i safon uchel gan gydnabod ei phwysigrwydd cenedlaethol, a chaiff ei dehongli i safon uchel.
5: Adnoddau Naturiol	Amgylchedd lle mae ansawdd yr aer a'r dŵr yn dda, ac yn cynnal gweithgareddau hamdden tawel ac amrywiaeth o fywyd gwyllt tir a môr. Cynhelir ansawdd y pridd i gefnogi arferion amaethyddol sy'n fwy ystyriol o'r amgylchedd.
6: Llonyddwch	Tirwedd lle gellir mwynau llonyddwch heb sŵn ac ymyriad gweledol. Tirwedd lle mae harddwch awyr y nos llawn sêr yn gallu cael ei gwerthfawrogi o hyd.
7: Adnoddau Hamdden	Rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus sydd ar agor yn llawn, yn hygyrch ac mewn cyflwr da, ac sydd wedi cael ei wella i ddarparu cymaint o fynediad â phosib i bawb. Tir mynediad a nodir yn glir ac sydd ar gael i'w ddefnyddio, oni bai am gyfyngiadau dros dro. Traethau sy'n cael eu rheoli'n dda at ddefnydd y cyhoedd ac sy'n bodloni safonau a meini prawf rheoli cyfredol, gan gynnwys y rhai a bennir gan gynlluniau gwobrau.

Thema	Gweledigaeth 20 mlynedd ar gyfer y thema
8: Diwydiannau Cynradd	Sector economaidd ffyniannus lle mae amaethyddiaeth yn fwy amrywiol, yn bodloni gofynion cyfoes a'r rhai a ragfynegir yn y dyfodol ac sy'n cael ei gefnogi gan gynlluniau amaethyddol-amgylcheddol ac arallgyfeirio sy'n cyd-fynd â'r amcanion cadwraeth a gwella ar gyfer rhinweddau arbennig yr AoHNE.
9: Twristiaeth	Economi dwristiaeth fywiog sy'n seiliedig ar egwyddorion twristiaeth gynaliadwy sy'n cynnig profiad o safon lle blaenoriaethir cadwraeth a gwella rhinweddau arbennig yr AoHNE a'r gallu i'w mwynhau'n dawl. Diwydiant twristiaeth deinamig sy'n creu buddion economaidd ac yn helpu i gefnogi cyfleusterau ac isadeiledd cymunedol.
10: Cludiant	Rhwydwaith a system rheoli sy'n cefnogi amrywiaeth o ddulliau cludiant i ddiwallu anghenion cymunedol ac ymwelwyr mewn modd cynaliadwy, gyda'r effaith leiaf posib ar rinweddau arbennig yr AoHNE.
11: Cyfleustodau a Chyfathrebu	Tirwedd lle gellir diwallu anghenion cwmnïau cyfleustod a chyfathrebu, gan gynnwys yr isadeiledd ategol, heb effeithio'n andwyol ar y dirwedd a'r forwedd.
12: Gweithgareddau Datblygu ac Alltraeth	Tirwedd lle gellir diwallu anghenion datblygiadau newydd, gan gynnwys yr isadeiledd ategol, heb effeithio'n andwyol ar y dirwedd a'r forwedd, a lle caiff egwyddorion datblygu cynaliadwy eu mabwysiadu.
13: Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol a Thai	Cymunedau amrywiol ffyniannus sy'n cynnwys amrywiaeth o dai a chyfleusterau i ddiwallu anghenion preswylwyr ac ymwelwyr.
14: Cynyddu Ymwybyddiaeth a Dealltwriaeth	Tirwedd a gydnabyddir yn llawn am ei rhinweddau arbennig ac sy'n cael ei gwerthfawrogi a'i deall gan breswylwyr ac ymwelwyr.

Pennod 5 Y Strategaeth

- 5.1 Nod cyffredinol y strategaeth yw gweithio tuag at weledigaeth 20 mlynedd ar gyfer yr AoHNE. Mae'r strategaeth yn nodi cyfres o bolisïau ac amcanion ar gyfer pob un o'r 14 thema allweddol. Mae'r polisïau a'r amcanion pum mlynedd hyn yn pennu'r fframwaith ar gyfer y Cynllun Gweithredu ym Mhennod 7, i'w roi ar waith yn ystod y cyfnod 2014-2018.
- 5.2 Fel gyda'r cynllun blaenorol, mae camau gweithredu DASA a phartneriaid eraill yn dibynnu'n aml ar argaeledd arian o gyllidebau presennol a/neu sicrhau arian o ffynonellau eraill.

Thema 1: Bioamrywiaeth – Gweledigaeth – Tirwedd â bywyd gwyllt cyfoethog sydd o bwys rhyngwladol, â'i chynefinoedd allweddol o laswelltir calchfaen, rhostir iseldir, morfeydd heli, twyni tywod, corsydd dŵr croyw a choetiroedd gwern ac ynn mewn cyflwr da a sefydlog

Polisïau

- 5.3 W1 Cadw a gwella pob ardal bresennol o gynefinoedd allweddol a phoblogaethau o rywogaethau allweddol.
- 5.4 W2 Cadw a gwella pob safle biolegol â dynodiad statudol presennol.
- 5.5 W3 Ennill gwell dealltwriaeth o gyflwr cynefinoedd allweddol a bywyd gwyllt mewn safleoedd sydd â dynodiad statudol am resymau biolegol a safleoedd pwysig eraill.

Amcanion

- 5.6 Amcan 1: Sicrhau bod polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol a phenderfyniadau rheoli datblygu'n cadw ac yn ennill nodweddion bioamrywiaeth yr AoHNE.
- 5.7 Amcan 2: Nodi ac ymateb i faterion a blaenoriaethau rheoli ar gyfer nodweddion bioamrywiaeth yr AoHNE i gyflawni Statws Cadwraeth a Ffefrir a gwella cysylltadwyedd ecolegol.

Thema 2: Daeareg – Gweledigaeth – Tirwedd ddaearegol o bwys rhyngwladol sy'n cael ei deall a'i pharchu, sy'n parhau i greu cyfleoedd addysg amgylcheddol, ac sy'n cael ei gwarchod rhag gweithgareddau niweidiol

Polisïau

- 5.8 G1 Cadw a gwella'r dirwedd ddaearegol a holl nodweddion daearegol pwysig yr AoHNE.

Amcanion

- 5.9 Amcan 3: Sicrhau bod polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol a phenderfyniadau rheoli datblygu'n cadw ac yn ennill nodweddion daearegol yr AoHNE.
- 5.10 Amcan 4: Nodi ac ymateb i faterion a blaenoriaethau rheoli ar gyfer nodweddion daearegol ar draws yr AoHNE, gan sicrhau bod y nodweddion hyn yn weladwy ac ar gael i'w hastudio.

Thema 3: Tirwedd a Morwedd – Gweledigaeth - Tirwedd o fri rhyngwladol am ei graddfa fach a'i hamrywiaeth o gymeriad sydd â chysylltiad agos â'r môr amgylchynol ac sy'n cefnogi datblygu cynaliadwy. Tirwedd lle mae'r amgylchedd adeiledig yn cydweddu â'r cymeriad hwn a lle mae'r patrymau caeau bach, ardaloedd o dir comin, a cheuffyrdd yn parhau fel enghreifftiau o effaith dyn wrth ddatblygu cymeriad y dirwedd

Polisiâu

- 5.11 LS1 Annog cadw a gwella nodweddion tirwedd unigryw allweddol yr AoHNE – clogwyni calchfaen, morfeydd heli, twyni tywod, tir comin, dyffrynnoedd coediog a chaeau bach wedi'u ffinio gan wrychoedd a waliau cerrig.
- 5.12 LS2 Diogelu a gwella golygfeydd traddodiadol o'r dirwedd, y forwedd a'r nodweddion tirnod.

Amcanion

- 5.13 Amcan 5: Sicrhau bod polisiâu cynllunio gofodol a phenderfyniadau rheoli datblygu'n cadw ac yn gwella'r dirwedd, y forwedd a golygfeydd allweddol wrth gyrraedd a gadael yr AoHNE.
- 5.14 Amcan 6: Adolygu ac ymateb i faterion a blaenoriaethau rheoli tirwedd ar gyfer nodweddion tirwedd allweddol a golygfeydd dros yr AoHNE.
- 5.15 Amcan 7: Ehangu cofnodi a monitro tirwedd, morwedd a golygfeydd allweddol yr AoHNE.

Thema 4: Treftadaeth Ddiwylliannol – Gweledigaeth - Tirwedd lle mae'r dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog, gyda'i henebion, ei thirweddau hanesyddol, ei pharcdiroedd, ei gerddi a'i hadeiladau hanesyddol, yn cael ei rheoli i safon uchel gan gydnabod ei phwysigrwydd cenedlaethol, a chaiff ei dehongli i safon uchel.

Polisiâu

- 5.16 CH1 Cadw a gwella nodweddion archaeolegol a threftadaeth adeiledig yr AoHNE.

Amcanion

- 5.17 Amcan 8: Sicrhau bod polisiâu'r Cynllun Datblygu Lleol a phenderfyniadau rheoli datblygu'n cadw ac yn ennill nodweddion archaeolegol a threftadaeth adeiledig yr AoHNE.
- 5.18 Amcan 9: Adolygu ac ymateb i'r materion a'r blaenoriaethau rheoli allweddol o ran treftadaeth archaeolegol ac adeiledig yr AoHNE.

Thema 5: Adnoddau Naturiol – Gweledigaeth – Amgylchedd lle mae ansawdd yr aer a'r dŵr yn dda, ac yn cynnal gweithgareddau hamdden tawel ac amrywiaeth o fywyd gwyllt tir a môr. Cynhelir ansawdd y pridd i gefnogi arferion amaethyddol sy'n fwy ystyriol o'r amgylchedd

Polisïau

5.19 NR1 Cynnal ansawdd aer a dŵr da er lles pobl ac ecosystemau.

5.20 NR2 Cadw a gwella ansawdd y pridd ar draws yr AoHNE.

Amcanion

5.21 Amcan 10: Parhau i wirio a monitro ansawdd aer a dŵr ar draws yr AoHNE.

5.22 Amcan 11: Cynnydd tuag at Statws Ecolegol Da ar gyfer dyfrgyrsiau yn yr AoHNE.

5.23 Amcan 12: Datblygu gwell dealltwriaeth o faterion cadwraeth pridd yn yr AoHNE.

5.24 Amcan 13: Datblygu dealltwriaeth o'r systemau ecosystem a ddarperir gan yr AoHNE.

Thema 6: Llonyddwch – Gweledigaeth – Tirwedd lle gellir mwynhau llonyddwch heb sŵn ac ymyriad gweledol. Tirwedd lle mae harddwch awyr y nos llawn sêr yn gallu cael ei gwerthfawrogi o hyd

Polisiïau

- 5.25 T1 Cadw a gwella llonyddwch.
- 5.26 T2 Hyrwyddo mesurau i gyfyngu ar y cynnydd yn lefelau sŵn a achosir gan draffig ffyrdd, awyrennau ac offer dŵr.
- 5.27 T3 Hyrwyddo mesurau i leihau tywyn awyr.

Amcanion

- 5.28 Amcan 14: Asesu lefelau llonyddwch, sŵn ac aflonyddwch golau ar hyn o bryd.
- 5.29 Amcan 15: Sicrhau bod polisi y Cynllun Datblygu Lleol a phenderfyniadau rheoli datblygu'n gwarchod llonyddwch ac awyr nos yr AoHNE.

Thema 7: Adnoddau Hamdden – Gweledigaeth - Rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus sydd ar agor yn llawn, yn hygyrch ac mewn cyflwr da, ac sydd wedi cael ei wella i ddarparu cymaint o fynediad â phosib i bawb. Tir mynediad a nodir yn glir ac sydd ar gael i'w ddefnyddio, oni bai am gyfyngiadau dros dro. Traethau sy'n cael eu rheoli'n dda at ddefnydd y cyhoedd ac sy'n bodloni safonau a meini prawf rheoli cyfredol, gan gynnwys y rhai a bennir gan gynlluniau gwobrau

Polisiâu

- 5.30 RR1 Cynyddu nifer yr hawliau tramwy cyhoeddus sy'n hawdd eu defnyddio.
- 5.31 RR2 Sicrhau bod tir mynediad ar gael ac yn cael ei hyrwyddo at ddefnydd cymunedau ac ymwelwyr.
- 5.32 RR3 Cadw traethau Gŵyr ar eu safon uchel.

Amcanion

- 5.33 Amcan 16: Gwella safon a lefel rheoli bresennol gwaith cynnal a chadw'r hawliau tramwy cyhoeddus fel bod 95% ar agor, yn gallu cael ei ddefnyddio ac wedi'i nodi â chyfeirbyst.
- 5.34 Amcan 17: Gwella cyfleoedd mynediad o amgylch Llwybr Arfordir Cymru a Llwybr Gŵyr.
- 5.35 Amcan 18: Sicrhau bod tir mynediad ar gael ac yn cael ei hyrwyddo at ddefnydd cymunedau ac ymwelwyr.
- 5.36 Amcan 19: Datblygu dealltwriaeth glir o'r gweithgareddau hamdden yn yr AoHNE ac o amgylch yr arfordir.
- 5.37 Amcan 20: Cynnal statws a phroffil ansawdd uchel traethau Gŵyr a'u cyfleusterau cysylltiedig.

Thema 8: Diwydiannau Cynradd – Gweledigaeth - Sector economaidd ffyniannus lle mae amaethyddiaeth yn fwy amrywiol, yn bodloni gofynion cyfoes a'r rhai a ragfynegir yn y dyfodol ac sy'n cael ei gefnogi gan gynlluniau amaethyddol-amgylcheddol ac arallgyfeirio sy'n cyd-fynd â'r amcanion cadwraeth a gwella ar gyfer rhinweddau arbennig yr AoHNE.

Polisiâu

- 5.38 PI1 Hyrwyddo rheoli amaethyddol a choetirol mewn modd cynaliadwy sy'n gysylltiedig â marchnadoedd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- 5.39 PI2 Cefnogi gweithgareddau crefftau a gweithdy sy'n amgylcheddol gynaliadwy.
- 5.40 PI3 Cefnogi gweithredu cydlynol i gyflawni twf cytbwys a chynaliadwy'r diwydiant pysgota lleol.

Amcanion

- 5.41 Amcan 21: Cynyddu arwynebedd yr AoHNE sy'n cael ei reoli'n gynaliadwy, gan gynnwys tir comin.
- 5.42 Amcan 22: Cefnogi cynlluniau arallgyfeirio a mentrau fferm a gwledig addas a chynaliadwy trwy'r CDLI a'r CDG.
- 5.43 Amcan 23: Datblygu cefnogaeth gydlynol ar gyfer twf cytbwys a chynaliadwy'r diwydiant pysgota lleol.

Thema 9: Twristiaeth – Gweledigaeth - Economi dwristiaeth fywiog sy'n seiliedig ar egwyddorion twristiaeth gynaliadwy sy'n cynnig profiad o safon lle blaenoriaethir cadwraeth a gwella rhinweddau arbennig yr AoHNE a'r gallu i'w mwynhau'n dawl. Diwydiant twristiaeth deinamig sy'n creu buddion economaidd ac yn helpu i gefnogi cyfleusterau ac isadeiledd cymunedol

Polisiâu

- 5.44 TR1 Annog diwydiant twristiaeth gynaliadwy a chyfleusterau hamdden priodol sy'n cefnogi'r economi leol a'r gymuned leol.
- 5.45 TR2 Hyrwyddo twristiaeth gyda'r nod o wella profiad ymwelwyr ac yn unol ag egwyddorion twristiaeth gynaliadwy.

Amcanion

- 5.46 Amcan 24: Cefnogi datblygiad diwydiant twristiaeth cynaliadwy ar benrhyn Gŵyr.

Thema 10: Cludiant – Gweledigaeth – Rhwydwaith a system rheoli sy'n cefnogi amrywiaeth o ddulliau cludiant i ddiwallu anghenion cymunedol ac ymwelwyr mewn modd cynaliadwy, gyda'r effaith leiaf posib ar rinweddau arbennig yr AoHNE.

Polisïau

- 5.47 TP1 Hysbysebu'r rhwydweithiau cludiant cyhoeddus a'r gwasanaethau sydd ar gael.
- 5.48 TP2 Hyrwyddo cynlluniau sy'n cynnig dull cynaliadwy o gludiant amgen – gan gynnwys bysus, beicio a cherdded – ac integreiddio gwahanol ddulliau.
- 5.49 TP3 Sicrhau bod gwelliannau i'r rhwydwaith cludiant yn cael eu gwneud mewn modd sy'n lleihau eu heffaith ar rinweddau arbennig yr AoHNE cymaint â phosib.

Amcanion

- 5.50 Amcan 25: Sicrhau bod gan y cyhoedd yr wybodaeth angenrheidiol i ddefnyddio rhwydweithiau a gwasanaethau teithio llesol.
- 5.51 Amcan 26: Gwella'r ddarpariaeth rhwydweithiau a gwasanaethau teithio cynaliadwy a llesol ar draws yr AoHNE.
- 5.52 Amcan 27: Datblygu gwell dealltwriaeth o ddarpariaeth, materion a blaenoriaethau gwella sy'n ymwneud â pharcio ceir ar draws yr AoHNE.
- 5.53 Amcan 28: Cynnal gwelliannau priffyrdd arfer da ar draws yr AoHNE.

Thema 11: Cyfleustodau a Chyfathrebu – Gweledigaeth – Tirwedd lle gellir diwallu anghenion cwmnïau cyfleustod a chyfathrebu, gan gynnwys yr isadeiledd ategol, heb effeithio'n andwyol ar y dirwedd a'r forwedd.

Polisïau

- 5.54 UC1 Cefnogi gwella asedau cyfleustod a chyfathrebu sy'n lleihau'r effaith ar rinweddau arbennig yr AoHNE cymaint â phosib.

Amcanion

